
Cyflawni'r gorau i bobl ifanc sydd ag anableddau dysgu

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# 'PEIDIWCH Â DAL YN ÔL'

## **Pontio** i oedolaeth yn achos pobl ifanc sydd ag **anableddau dysgu**



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair gan Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru | 3 |
| Negeseuon allweddol gan bobl ifanc a'u teuluoedd | 4 |
| Cyflwyniad | 5 |
| Anabledd Dysgu | 6 |
| Y Cyd-destun Polisi a Deddfwriaeth | 7 |
| Beth wnaethon ni | 10 |
| Canfyddiadau | 11 |
| Beth sy'n bwysig | 12 |
| Chwarae rhan | 12 |
| Bywyd y teulu | 16 |
| Cymorth | 20 |
| Cael gwasanaethau | 22 |
| Ansawdd gwasanaethau | 26 |
| Ffrindiau, bywyd cymdeithasol a thrafnidiaeth | 30 |
| Gobeithion ar gyfer y dyfodol | 32 |
| Diweddglo | 35 |
| Argymhellion | 38 |

# 'PEIDIWCH Â DAL YN ÔL'[1]

## Rhagair gan Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru

Un sgwrs oedd y man cychwyn ar gyfer yr adroddiad hwn. Digwyddodd hynny ym mis Tachwedd 2016, pan ges i drafodaeth hir gyda rhieni pobl ifanc ag anableddau dysgu ac anghenion cymhleth mewn grŵp cefnogi yng ngogledd Cymru. Ar ddiwedd y drafodaeth fe ofynnais i bob un ohonyn nhw beth fydden nhw'n ei wneud petai ganddyn nhw ffon hud.

Dywedodd un fam, 'Swn i ddim eisiau i'm merch dyfu i fyny byth. Rwy'n gwybod bod hynny'n swnio'n ofnadwy, ond rwy wedi gorfod brwydro cymaint i gael yr addysg a'r gefnogaeth mae arni eu hangen, a does gen i ddim syniad pa gefnogaeth fydd ar gael iddi pan fydd hi'n oedolyn'.

Mae hawliau dynol plant a phobl ifanc sydd ag anableddau dysgu yn cael eu diogelu gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CCUHPA). Yng Nghymru mae gennym ni ddeddfwriaeth bwysig sy'n cydnabod yr hawliau hyn ac yn gofyn bod gwasanaethau'n troi o gwmpas anghenion pob person, yn cynnwys pobl yn y broses o gynllunio'u gofal eu hunain, yn ataliol, ac yn integredig. Sefydlwyd y Deddfau hyn, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, i roi sylw i'r brwydrau a'r pryderon gwirioneddol a fynegwyd gan y fam honno yng ngogledd Cymru, a miloedd o rai eraill tebyg iddi ledled Cymru. Ond yn amlwg mae deddfau fel y rhain yn methu â darparu'r gefnogaeth angenrheidiol i bobl ifanc ag anableddau dysgu wrth iddyn nhw symud tuag at oedolaeth.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno profiad a barn **99 o bobl ifanc, 187 o rieni a gofalwyr, a 43 o weithwyr proffesiynol**, sy'n adlewyrchu'r angen i'r llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus weithredu mewn modd pendant er mwyn sicrhau bod nodau da y ddau ddarn uchod o ddeddfwriaeth yn cael eu trosi'n wasanaethau o'r safon y mae gan bobl ifanc ag anableddau dysgu hawl i'w derbyn.

Mae angen cefnogaeth ar bob person ifanc wrth iddyn nhw symud i gyfeiriad oedolaeth. Mae gan bobl ifanc ag anableddau dysgu yr un gobeithion ar gyfer bywyd da fel oedolyn, ond bydd angen help ychwanegol ar y rhan fwyaf ohonynt. Bydd y gwasanaethau y gall eu teuluoedd fod wedi gweithio mor galed i'w sicrhau iddynt fel arfer yn newid wrth iddynt gyrraedd 18 oed (er bod yr oed yn amrywio yn achos gwasanaethau gwahanol) a bron yn ddieithriad mae pobl ifanc a'u teuluoedd yn wynebu tasg anferthol wrth geisio cael hyd i'w ffordd trwy'r broses o symud i wasanaethau cymdeithasol a iechyd oedolion, a phosibiliadau cyflogaeth neu weithgarwch arall gwerth chweil ar ôl gadael y coleg.

Yn yr adroddiad hwn rydym ni'n clywed gan rai teuluoedd sydd wedi cael cefnogaeth dda yn ystod y cyfnod hwn, gyda chefnogaeth bontio benodol, gan gynnwys datblygu sgiliau bywyd trwy brosiectau awdurdod lleol neu sector gwirfoddol. Ond mae'r mwyafrif wedi cael bod hon yn broses ddryslyd, anodd, sy'n peri pryder. Nid yw pobl ifanc wedi cael y cyfleoedd y mae ganddynt hawl iddynt i fod yn rhan o'r cynllunio hwn, ac yn rhy aml mae cynllunio wedi digwydd 'amdanynt' yn hytrach na 'gyda' nhw.

Mae integreiddio gwasanaethau ymhellach yn anodd, ond bydd yn arwain at fanteision aruthrol o safbwynt profiadau plant a phobl ifanc sydd ag anableddau dysgu a'u teuluoedd. Bydd hefyd yn fwy effeithiol ac effeithlon. Does dim synnwyr mewn bod â system mor gymhleth fel bod angen i ni gyflogi gweithwyr arbennig i helpu teuluoedd i gael hyd i'w ffordd drwyddi. Ond bydd yr angen dybryd am gefnogaeth o'r math yma gan weithwyr allweddol yn parhau nes bod modd sicrhau bod y system ei hun yn llawer mwy hwylus.

Yn olaf, dylai ein huchelgais gynnwys mwy na dim ond systemau a phrosesau mwy hwylus. Yr elfen ganolog yma yw'r angen am sicrhau bod pobl ag anableddau dysgu yn gallu cymryd eu lle fel dinasyddion llawn, gweithredol. Mae'r cyfnod hwn o ganol yr arddegau i ganol yr ugeiniau yn gyfnod allweddol i sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu paratoi a'u cefnogi ar gyfer bywyd. Mae angen bod gennym ni ddisgwyliadau llawer uwch o ran ein parodrwydd, fel cymdeithas, i gael hyd i ffyrdd o leihau stigma ac eithrio cymdeithasol anabledd, a chroesawu plant a phobl ifanc sydd ag anableddau dysgu fel dinasyddion cyfartal yn ein hysgolion, ein gweithleoedd a'n cymunedau.

# Negeseuon allweddol

## gan bobl ifanc a'u teuluoedd:

- **Ymddengys bod cyfranogiad pobl ifanc** wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau yn isel iawn – mae hynny'n golygu bod modd methu â gweld eu gwahanol flaenoriaethau a'u diddordebau penodol.

- **Mae rhieni'n cyflawni rôl hanfodol** ac mae dibyniaeth arnyn nhw i wneud hynny, ond yn aml mae pryderon am y dyfodol yn eu llethu – mae angen cefnogaeth a chydnabyddiaeth arnyn nhw.

- **Mae rhai pobl ifanc yn wynebu newid** sylweddol o ran faint o gefnogaeth maen nhw'n ei chael ar ôl cyrraedd 18 oed, a hynny oherwydd gwahanol drothwyon yn hytrach na newid sydyn yn eu hanghenion – yn groes i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

- **Mae gan bob gwasanaeth ffyrdd** gwahanol o drosglwyddo i wasanaethau ôl-18. Mae meddu ar weithiwr allweddol neu wasanaeth pontio yn werthfawr dros ben.

- **Mae ynysu cymdeithasol yn broblem i lawer** – er bod pobl ifanc yn dweud mai cyfeillgarwch yw eu prif flaenoriaeth.

- **Mae cyfleoedd cyfyngedig iawn** ar gyfer gwaith a phrentisiaethau, heb gyfleoedd cyflogaeth â chymorth – er bod y dystiolaeth yn awgrymu bod hynny'n arbennig o effeithiol.

- **Mae pobl ifanc,** rhieni a gweithwyr proffesiynol fel ei gilydd yn cytuno bod disgwyl o hyd i bobl ifanc ag anableddau dysgu ffitio i mewn i wasanaethau sy'n bodoli eisoes, gydag opsiynau cyfyngedig os nad yw hynny'n addas ar gyfer eu hanghenion.

- **Mae bron yr holl bwyntiau uchod yn groes i ddyheadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac i hawliau o dan CCUHP a CCUHPA.**

- **Lle soniodd pobl ifanc** a'u teuluoedd am brofiadau da, roedden nhw wedi cael eu cynnwys, yn glir ynghylch y broses, yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda gan weithiwr allweddol, gweithiwr proffesiynol arweiniol neu wasanaeth pontio penodol, ac yn aml roedd ganddyn nhw fynediad i ddarpariaeth oedd yn troi o gwmpas pobl ifanc, gan eu helpu i baratoi ar gyfer oedolaeth ac ehangu eu rhwydweithiau cymdeithasol a chymunedol.

# CYFLWYNIAD

Mae holl hawliau plant o dan CCUHP yn gyfartal ac yn berthnasol i bob plentyn. Fodd bynnag, mae'r confensiwn ei hun yn cydnabod sefyllfa fregus plant anabl, gan atgoffa y dylent fyw bywydau mor llawn â phosibl, ond hefyd bod gofyniad ar "y llywodraeth i wneud popeth o fewn ei gallu i gefnogi plant anabl a'u teuluoedd."[2]

Daw'r adroddiad hwn ar adeg pan fo newidiadau a datblygiadau pwysig yn digwydd yng Nghymru a fydd yn effeithio ar fywydau plant a phobl ifanc ag anableddau dysgu a'u pontio i oedolaeth. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys ond heb eu cyfyngu i'r canlynol; datblygu'r rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Côd Ymarfer gorfodol, adolygu'r canllawiau Gofal Parhaus, datblygiadau mewn rhaglenni gwaith o dan y 'Ffyniant i Bawb: Cynllun Cyflogadwyedd', a rhaglenni gwaith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, sy'n dal yn gymharol newydd. Ceir cyfeiriadau at lawer o'r rhain yn Rhaglen Gwella Bywydau'r Llywodraeth – sy'n cyflwyno argymhellion penodol ar gyfer gwella canlyniadau yng nghyswllt pobl ag anableddau dysgu, ac sydd â'r gallu i gael effaith gadarnhaol ar bobl ag anableddau dysgu yng Nghymru ar draws yr hyn a elwir yn "ystod eu hoes".

Yng ngoleuni'r holl ddatblygiadau hyn, mae hwn yn gyfle delfrydol i Lywodraeth Cymru, partneriaid statudol ac eraill roi sylw penodol i sut gallan nhw wella bywydau plant a phobl ifanc yng Nghymru, gan gynnwys y rhai sydd ag anableddau dysgu, wrth iddyn nhw nesáu at oedolaeth.

Yn yr adroddiad hwn rwy'n cyflwyno nifer o argymhellion sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth a sefydlwyd, sef Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ond hefyd am y datblygiadau sydd ar droed, a nodwyd uchod.

# ANABLEDD DYSGU

## Diffiniad o anabledd dysgu:

**Mae'r elusen MENCAP yn rhoi esboniad llawn:**

- **Anabledd dysgu yw gallu deallusol** llai ac anhawster gyda gweithgareddau pob dydd – er enghraifft tasgau yn y cartref, cymdeithasu neu reoli arian – sy'n effeithio ar rywun ar hyd eu bywyd.
- **Mae pobl ag anabledd dysgu** yn tueddu i gymryd mwy o amser i ddysgu, a gall fod angen cefnogaeth arnynt i ddatblygu sgiliau newydd, deall gwybodaeth gymhleth a rhyngweithio â phobl eraill.
- **Mae lefel y gefnogaeth sydd ei hangen** ar rywun yn dibynnu ar yr unigolyn. Er enghraifft, efallai na fydd ar rywun sydd ag anabledd dysgu ysgafn ond angen cefnogaeth gyda phethau fel cael swydd. Ond gallai fod ar rywun sydd ag anabledd dysgu difrifol neu ddwys angen gofal amser llawn a chefnogaeth gyda phob agwedd ar eu bywyd – efallai bydd ganddynt hefyd anableddau corfforol.
- **Gall fod gan bobl sydd â rhai cyflyrau** penodol anabledd dysgu hefyd. Er enghraifft, mae gan bobl â syndrom Down a rhai pobl ag awtistiaeth anabledd dysgu hefyd.
- **Mae'n bwysig cofio,** o gael y gefnogaeth gywir, fod y rhan fwyaf o bobl ag anabledd dysgu yn y Deyrnas Unedig yn gallu byw bywydau annibynnol.[3]

## Plant ag Anableddau Dysgu yng Nghymru

Faint o blant yng Nghymru sydd ag anableddau dysgu? Mae adroddiad trawsbleidiol ynghylch pobl ag anableddau dysgu yn cydnabod bod "diffyg data wedi'i nodi ynghylch pobl ag anabledd dysgu yng Nghymru."[4]

Yn ôl amcangyfrif Mencap, mae gan ryw 193,707 o blant oed ysgol yn y Deyrnas Unedig anabledd dysgu. Byddai hynny'n awgrymu bod anabledd dysgu gan ryw 9,297 o blant yng Nghymru. Bydd i ba raddau mae hynny'n effeithio ar eu bywydau pob dydd yn amrywio'n fawr. Mae tua hanner y nifer dan sylw, 4,727, mewn ysgol arbennig. Bydd gan lawer o'r disgyblion yn yr ysgolion hynny, er nad pawb ohonynt, anabledd dysgu. Mae llawer iawn o blant eraill sydd ag anabledd dysgu yn cael eu cefnogi i fynychu ysgolion prif ffrwd.

# Y CYD-DESTUN POLISI A DEDDFWRIAETH

## Gwasanaethau Cymdeithasol

Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i rym ar 6 Ebrill 2016. Mae'r Memorandwm Esboniadol a gynhyrchwyd pan gyflwynwyd y Bil i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn datgan fel a ganlyn ar dudalen 4:[5]

"Mae Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn darparu ar gyfer un Ddeddf i Gymru sy'n dwyn ynghyd ddyletswyddau a swyddogaethau awdurdodau lleol mewn perthynas â gwella llesiant y bobl hynny y mae angen gofal a chymorth arnynt. Mae'r Bil yn darparu fframwaith statudol ar gyfer gwireddu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i integreiddio'r gwasanaethau cymdeithasol er mwyn cynorthwyo pobl o bob oed, a chynorthwyo pobl fel rhan o deuluoedd a chymunedau.

"Bydd yn trawsnewid y modd y caiff y gwasanaethau cymdeithasol eu darparu, yn bennaf drwy hybu annibyniaeth pobl er mwyn rhoi mwy o lais a rheolaeth iddynt. Bydd integreiddio a symleiddio'r gyfraith ar gyfer pobl hefyd yn rhoi mwy o gysondeb ac eglurder i'r bobl hynny sy'n defnyddio'r gwasanaethau cymdeithasol, eu gofalwyr, staff yr awdurdodau lleol a'r cyrff sy'n bartneriaid iddynt, y llysoedd a'r farnwriaeth. Bydd y Bil yn hybu cydraddoldeb ac yn gwella ansawdd gwasanaethau a'r wybodaeth a gynigir i bobl, yn ogystal â sicrhau bod yna gymhellion priodol i gomisiynwyr sicrhau bod yna bwyslais ar y cyd ar atal ac ymyrryd yn gynnar."[5]

Cyflwynodd y Ddeddf ddarpariaethau newydd megis hawl awtomatig i ofalwyr gael asesiad o'u hanghenion eu hunain, yn annibynnol ar anghenion y person maen nhw'n gofalu amdano/amdani, a strwythurau newydd fel Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sy'n dod ag awdurdodau lleol, byrddau iechyd ac asiantaethau eraill ynghyd, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r trydydd sector, i asesu a chynllunio sut mae diwallu anghenion y boblogaeth yn eu hardal.

Mae'r Ddeddf i gael ei gwerthuso'n ffurfiol gan Lywodraeth Cymru i fonitro ei heffaith ers iddi gael ei chyflwyno.

O dan y Ddeddf, mae Rhan 9 Canllawiau Statudol (Trefniadau Partneriaeth) yn dangos yn eglur bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) yn amlygu meysydd sy'n flaenoriaeth ar gyfer cefnogaeth, gan gynnwys pobl ag anableddau dysgu a phlant ag anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu salwch. Mae gofyn bod BPRhau yn inegreiddio gwasanaethau mewn perthynas â phobl ag anableddau dysgu, plant ag anghenion cymhleth oherwydd anabledd, a threfniadau pontio o wasanaethau plant i oedolion.

Mae'r Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth yn gofyn bod BPRhau yn paratoi adroddiadau blynyddol sy'n nodi i ba raddau y cyflawnwyd amcanion y bwrdd, ac yn eu cyflwyno i Weinidogion Cymru. Dylai'r adroddiadau nodi'n benodol y camau a gymerwyd i integreiddio gwasanaethau fel y nodwyd uchod, ac os na symudwyd ymlaen gyda materion hyd yma, dylid nodi'r camau a gymerir yn ystod y flwyddyn sy'n dilyn i gyflawni hynny.

## Addysg

Cafodd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 Gydsyniad Brenhinol ym mis Ionawr 2018. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno'r diffiniad o Anghenion Dysgu Ychwanegol ac yn creu fframwaith deddfwriaethol sengl ar gyfer dysgwyr o 0-25. Cefnogir y Ddeddf gan reoliadau a chôd ymarfer a fydd yn cynnwys canllawiau statudol a gofynion gorfodol. Mae'r rhain yng ngham cyntaf eu datblygiad. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd gweithrediad ymarferol y Ddeddf yn cychwyn yn 2020 ac yn cael ei gwblhau'n llawn erbyn 2023. Yn y cyfamser mae Deddf Addysg 1996, y rheoliadau perthnasol ynghylch Anghenion Addysgol Arbennig a Chodau Ymarfer AAA 2004 yn dal yn eu lle. Mae'r Côd Ymarfer yn darparu manylion ynghylch cynllunio pontio ar hyn o bryd, a ddylai ddechrau adeg adolygiad y plentyn ym mlwyddyn 9 (hanner ffordd trwy'r ysgol uwchradd).



## Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn amddiffyn pobl yn gyfreithlon rhag camwahaniaethu yn y gweithle a'r gymdeithas ehangach. Mae wedi disodli cyfreithiau gwrthwahaniaethu blaenorol ag un ddeddf, fel bod y gyfraith yn haws ei deall, a chan gryfhau'r amddiffyniad mewn rhai sefyllfaoedd. Mae'n nodi'r gwahanol ffyrdd o drin rhywun sy'n anghyfreithlon.[6] Mae'n cynnwys dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus - "the broad purpose of the equality duty is to integrate consideration of equality and good relations into the day-to-day business of public authorities." [7]

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Sefydlodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) newydd, sy'n dod ag uwch-arweinwyr iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu a'r gwasanaethau tân, Cyfoeth Naturiol Cymru a sefydliadau gwirfoddol at ei gilydd. Mae gofyn bod pob BGC yn cyhoeddi Asesiad Llesiant Lleol, er mwyn nodi'r sefyllfa o ran llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn ardal y BGC hwnnw.

Mae'n ofynnol bod y cyrff cyhoeddus yng Nghymru a enwir yn y Ddeddf yn darparu tystiolaeth bod eu gwaith yn cydweddu â'r pum dull o weithio; hir dymor, ataliaeth, integreiddio, cydweithio a chynnwys.

## Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008

"Mae'n rhaid i sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol wneud 'addasiadau rhesymol' i sut mae gwasanaethau'n cael eu cynnig, er mwyn lleihau anghydraddoldebau ataliadwy mewn iechyd gan bobl sydd ag anableddau dysgu."[8]

## Polisïau

Yn 2017, comisiynodd Llywodraeth Cymru Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol, sef "Chwyldro o'r tu mewn: Trawsnewid Iechyd a Gofal yng Nghymru"[9] ym mis Ionawr 2018, ac yn ddiweddar mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno ei gweledigaeth ar gyfer "Cymru Iachach" mewn ymateb i hynny.

Mae gweledigaeth a nodau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cyfnod Cynulliad hwn wedi'u cynnwys yn eu dogfen strategol "Ffyniant i bawb". Strategaeth groesdoriadol sengl yw hon i lywio'r holl benderfyniadau a wneir a darparu fframwaith ar gyfer gwaith gwell ar draws y llywodraeth er mwyn gwella ansawdd bywydau pobl.[10]

Yn 2007, cyhoeddwyd datganiad polisi ac ymarfer ar gyfer pobl ag anabledd dysgu. Dyma'r "dogfennau canllaw diweddaraf, sy'n dal yn berthnasol heddiw", yn ôl y Gweinidog, ond roedd angen adolygu gwasanaethau er mwyn diweddaru popeth yng ngoleuni'r newidiadau deddfwriaeth. Mae'r rhaglen sy'n deillio o hynny, "Anableddau Dysgu – Y Rhaglen Gwella Bywydau" yn adolygiad ar wahân ar draws y llywodraeth o wasanaethau anabledd dysgu, a gwblhawyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2018. Mae Papur Cabinet am yr adolygiad yn datgan bod "Ffyniant i Bawb a'r Adolygiad Seneddol yn cyflwyno cyfleoedd clir i symud ymlaen gyda'r argymhellion."[11]

Mae amseru'r adroddiad hwn yn cyd-ddigwydd, felly, â chyfleoedd pwysig i newid sut mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu darparu yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod cynllunio a darpariaeth person-ganolog yn cael eu lle creiddiol. Mae gwrando ar leisiau grwpiau arbennig o agored i niwed, fel plant a phobl ifanc sydd ag anghenion ychwanegol sy'n debygol o barhau i mewn i oedolaeth, yn eithriadol o bwysig i sicrhau llwyddiant unrhyw newidiadau a wneir o ganlyniad i'r adolygiadau diweddar hyn.

# BETH WNAETHON NI

**Fe sylweddolon** ni fod gan eraill lawer o wybodaeth arbenigol yn y maes hwn eisoes. Fe drefnon ni, felly, fod dau dîm yn gwneud y gwaith ymchwil oedd yn darparu cynnwys ar gyfer yr adroddiad hwn.

## Roedd dwy elfen i hyn:

### a) Adolygu'r dystiolaeth: beth mae'r ymchwil eisoes wedi dangos i ni?

Cynhaliodd Dr Axel Kaehne a'i gydweithwyr ym Mhrifysgol Edge Hill 'adolygiad carlam' o'r ymchwil oedd eisoes wedi'i gwneud ar y pwnc yma. Ar ein cais ni, fe fuon nhw'n edrych yn arbennig ar berthnasedd yr ymchwil i Gymru. O blith bron 3000 o bapurau ymchwil oedd yn agos at y pwnc hwn, cafwyd hyd i 58 oedd yn arbennig o berthnasol. Byddwn ni'n cyfeirio at eu dadansoddiad o'r 58 astudiaeth ymchwil yma ar hyd yr adroddiad. Mae'r adolygiad llawn o'r dystiolaeth i'w weld yma. Yn yr adroddiad hwn, fe welwch ganfyddiadau'r adroddiad hwn mewn blychau glas wedi'u gosod ar wahân, fel hyn:

> Canfu ein hadolygiad o'r dystiolaeth o astudiaethau ymchwil eraill:

### b) Barn a phrofiadau uniongyrchol pobl ifanc, eu rhieni neu eu gofalwyr a gweithwyr proffesiynol


Mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth yn yr adroddiad hwn yn dod yn uniongyrchol oddi wrth bobl ifanc ag anableddau dysgu a'r oedolion sy'n gofalu amdanynt neu'n gweithio gyda nhw. Fe ofynnon ni i Vikki Butler a'i thîm yn CARP Collaborations wneud y gwaith hwn. Fe fuon nhw'n gweithio mewn partneriaeth â chymheiriad ymchwil – ymchwilydd ifanc ag anableddau dysgu – i'w helpu i wneud hynny'n iawn.

Buon nhw'n gwrando ar farn:

- **99 o bobl ifanc 14-26 oed** – mewn 10 grŵp ffocws wyneb yn wyneb ac un sesiwn Skype.
- **187 o rieni** plant a phobl ifanc ag anableddau dysgu, bron pawb ohonynt rhwng 14 a 25 oed – mewn holiadur ar-lein.
- **43 o weithwyr proffesiynol** addysg, gofal cymdeithasol, iechyd a gwasanaethau gwirfoddol mewn grwpiau ffocws.
- **6 sefydliad gwirfoddol cenedlaethol** trwy sylwadau ysgrifenedig.

Er bod yr holl gyfranogwyr wedi dewis eu hunain (neu wedi cael eu dewis i gymryd rhan gan eu hysgol neu eu coleg), maen nhw'n cynrychioli profiadau amrywiol iawn. Roedd pobl ifanc o'r rhan fwyaf o ardaloedd yng Nghymru yn rhan o'r gwaith, er bod gorgynrychiolaeth o ardaloedd gwledig canolbarth a gorllewin Cymru yn y sampl o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol. Roedd 17% o'r bobl ifanc yn siarad Cymraeg (gyda chwarter arall yn siarad peth Cymraeg). Mae hyn 2% yn is na'r boblogaeth gyffredinol. Roedd 5% o gefndir Du neu ethnig leiafrifol, sy'n debyg i'r boblogaeth yng Nghymru. Bu'r bobl ifanc yn cymryd rhan trwy grwpiau ffocws oedd wedi'u haddasu i'w hanghenion. Roedd hynny'n golygu nad oedd y bobl ifanc oedd â'r anableddau dysgu mwyaf difrifol yn cymryd rhan. Serch hynny, mae rhai o'u profiadau'n cael eu cynrychioli gan rieni a gweithwyr proffesiynol.

# CANFYDDIADAU




**Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar bersbectif pobl ifanc, eu teuluoedd a'r gweithwyr proffesiynol** sy'n eu cefnogi ynghylch y pethau mae arnyn nhw eu hangen a'u heisiau wrth symud o blentyndod i oedolaeth. Oherwydd hynny nid yw'r canfyddiadau wedi'u trefnu yn ôl 'sector' – iechyd, gofal cymdeithasol, tai, addysg – oherwydd nid dyna sut mae pobl yn meddwl am eu bywydau ac yn eu profi.

Yn hytrach, mae'r canfyddiadau hyn yn cael eu cyflwyno yn ôl dull pobl o ddisgrifio'u bywydau i ni –

- beth yw'r pethau pwysicaf ar yr adeg hon mewn bywyd?
- I ba raddau mae pobl ifanc yn ymwneud â chynllunio'u bywydau eu hunain?
- Beth yw natur bywyd y teulu?
- Beth am ffrindiau?
- Pwy sy'n ein cefnogi ni?
- Sut gallwn ni gael y cymorth a'r gwasanaethau mae arnon ni eu hangen?
- Beth sy'n dda a beth sydd ddim cystal am y cymorth a'r gwasanaethau rydyn ni'n eu derbyn?
- Beth yw fy ngobeithion at y dyfodol?

# SYMUD O BLENTYNDOD I OEDOLAETH – BETH SY'N BWYSIG?

Roedd gan bobl ifanc, rhieni a gweithwyr proffesiynol ffyrdd gwahanol o ddeall y pontio o blentyndod i oedolaeth. I bobl ifanc roedd yn fater o gyfnod mewn bywyd – gadael yr ysgol a mynd i'r coleg, newidiadau yn y corff, perthnasoedd gwahanol a dechrau gweithio. Disgrifiodd rhieni a gweithwyr proffesiynol hyn yn bennaf yn nhermau pa wasanaethau sy'n dod i ben wrth gyrraedd 16 neu 18 oed, a sut gall pobl ifanc symud ymlaen i wasanaethau oedolion.

Barn pobl ifanc am dyfu'n oedolion.

> 'Mae yna newidiadau corfforol yn digwydd. Rydych chi'n newid yn feddyliol ac yn sylweddoli eich bod chi ddim eisiau bod ar eich pen eich hun fel oedolyn. Hwyliau cyfnewidiol. Mae'r berthynas â ffrindiau'n newid – gallwch chi ddod yn agosach, neu gall y berthynas newid llawer a datblygu.'
>
> 'Cael swydd, neu eich profiad cyntaf o waith. Rydych chi'n cael mwy o gyfrifoldeb, ac mae'n rhaid i chi haeddu hynny. Rydych chi'n cael eich trystio mwy a mwy gydag arian.'

Pan roddodd 91 o bobl ifanc eu blaenoriaethau mewn trefn ar yr adeg hon yn eu bywydau, gan ddewis tri pheth o restr, 'cael ffrindiau' oedd y dewis mwyaf poblogaidd o bell ffordd, gyda chael digon o arian a'i ddeall yn dilyn, ac yna cael eu trin â pharch."

Mewn cyferbyniad, roedd ffocws y rhieni a'r gweithwyr proffesiynol ar wasanaethau, a beth fyddai ar gael wedi'r symud i ffwrdd oddi wrth wasanaethau plant a'r system addysg. Er bod y pryder hwn yn gwbl ddealladwy, mae perygl peidio â rhoi pwyslais digonol ar agweddau cymdeithasol blaenoriaethau'r bobl ifanc oherwydd y ffocws ar ddarparu gwasanaethau proffesiynol. Mae'r gwahanol flaenoriaethau'n dangos pwysigrwydd sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu cymryd i ystyriaeth. Byddwn ni'n rhoi sylw i hynny yn yr adran nesaf.

# CHWARAE RHAN

Yn dibynnu ar anghenion person ifanc, gall fod ganddynt gynlluniau pontio gwahanol ar gyfer addysg, gofal a chymorth, yn cael eu darparu gan y Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg a Iechyd.

Doedd y bobl ifanc a ddywedodd wrthyn ni am eu profiadau ddim i'w gweld yn ymwneud yn gyffredinol â chynllunio pontio, ac nid ymddengys bod eu llais i'w glywed yn y prosesau cynllunio ac adolygu, gydag ambell eithriad amlwg. Mae'r eithriadau'n dangos bod pobl ifanc yn gallu chwarae rhan yn y gwaith o gynllunio'u cymorth, a'u bod yn gosod gwerth ar hynny.

Amlygwyd mater cyffredinol chwarae rhan yn ein hadolygiad o'r dystiolaeth:

> 'Ceir sylwadau yn gyson ar draws llawer o'r papurau ynghylch gallu pobl ifanc i gael eu clywed ar hyd y broses. Mynegodd sylwebyddion ac ymchwilwyr bryder droeon fod pobl ifanc yn dal heb gael gwrandawiad, a bod neb yn gweithredu ar sail eu dewisiadau.'

## Cyfranogiad pobl ifanc mewn cynlluniau pontio

Bu'r ymchwilwyr yn trafod cynlluniau pontio gyda chyfanswm o 78 o'r 99 person ifanc, a chanfod bod:

- **8 person ifanc yn gallu disgrifio'u cynllun pontio a'u rhan yn y broses** o wneud penderfyniadau. Dyma rai disgrifiadau enghreifftiol:

  'Mae Gweithwyr Cymdeithasol yn dod ac yn mynd, ond rwy'n gwybod bod y cynllun yn rhoi cyngor i fi am y pethau y gallai fod eu hangen arna i. Bydd fy rhieni'n ymwneud ag e hefyd. Rydyn ni'n aros am Weithiwr Cymdeithasol newydd ar hyn o bryd.'

  'Roedd gen i gynllun ar gyfer symud o'r gwasanaethau plant i'r gwasanaethau oedolion, ond dwy ddim yn siŵr beth ddigwyddodd iddo fe.'

  'Wrth bontio o'r ysgol i'r coleg, roeddwn i'n rhan o hynny.'

'Roedd pawb yn cwrdd ag X a'r teulu yn 13 oed' *[gyda chefnogaeth eiriolydd]*

'Cafodd hi gadeirio cyfarfod ei chynllun pontio, rhoi ei barn, ac aeth y cyfan yn well nag roedd hi wedi disgwyl.' [*Esboniad gan staff ar gais person ifanc]*

- **Doedd 53 o bobl ifanc ddim yn meddwl bod ganddyn nhw gynllun pontio** a'u bod nhw ddim wedi bod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch beth fydden nhw'n ei wneud ar ôl gadael yr ysgol. Ar 3 safle gwaith maes, bu'r staff yn ymyrryd i gywiro ymatebion y bobl ifanc ac yn dweud wrth yr ymchwilwyr "maen nhw i gyd wedi bod yn rhan o gynllunio pontio".

Fodd bynnag, doedd y bobl ifanc ddim i'w gweld yn sylweddoli bod cynllunio wedi digwydd, na'u rhan hwythau yn hynny, ac er bod rhai o bosib wedi chwarae rhan o safbwynt y staff, roedd yn amlwg iawn o safbwynt y bobl ifanc nad oedd y broses wedi bod yn un yr oedden nhw'n teimlo iddynt fod yn rhan ohoni.

Roedd pawb o'r 70 o bobl ifanc oedd yn teimlo eu bod heb gael eu cynnwys mewn unrhyw gynlluniau pontio yn diffinio cynllunio pontio mewn perthynas â symud i'r coleg, yn hytrach nag mewn perthynas â chynllunio unrhyw wasanaethau eraill maen nhw'n eu derbyn.

## Ymwneud pobl ifanc ag addysg

Bu'r ymchwilwyr yn cynnal gweithgareddau oedd yn archwilio canfyddiad pobl ifanc o'u cyfranogiad mewn **adolygiadau o'r cymorth roedd arnyn nhw ei angen yn yr ysgol**. Dim ond 7 person ifanc ddywedodd eu bod wedi ymwneud ag adolygiadau. Er enghraifft, dywedodd un person ifanc ei bod wedi cael ei chynnwys ar lefel un-i-un, a'i bod yn rhan o'r cynllunio ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Ar bedwar safle gwaith maes dywedodd y staff fod y bobl ifanc yn ymwneud ag adolygiadau, ond mewn tri achos dywedwyd bod y bobl ifanc wedi colli diddordeb, ac felly eu bod yn chwarae llai o ran, neu bod eu hymwneud yn amrywio.

Canfu ein hadolygiad o dystiolaeth astudiaethau ymchwil eraill:
'Y pryder pwysicaf o hyd, fodd bynnag, yw pam nad yw llawer o bobl ifanc yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio pontio a sut mae modd cywiro hynny. Mae'r broses gynllunio yn mynd â llawer o amser, yn defnyddio nifer helaeth o adnoddau, ac yn dal yn benodol i'r sector ac wedi'i hintegreiddio'n wael ar draws parthau bywyd. Y cwestiwn yw pam mae sefydliadau addysg yn dal i ymlafnio i ddarparu ymarfer cynhwysol ystyrlon yn y maes hwn a pham mae prosesau cynllunio cyfannol yn dal yn brin.'

## Cyfranogiad pobl ifanc yn eu gofal cymdeithasol

Ac eithrio 16 o bobl ifanc oedd yn byw mewn un dref yn y canolbarth, nid oedd mwyafrif y bobl ifanc yn yr astudiaeth hon oedd â chysylltiad â'r gwasanaethau cymdeithasol yn teimlo eu bod yn chwarae rhan mewn penderfyniadau ynghylch eu gofal cymdeithasol nac mewn adolygiadau gwaith cymdeithasol.


Y consensws ymhlith y bobl ifanc oedd bod gweithwyr cymdeithasol fel arfer yn siarad â rhieni, a'u bod yn newid swyddi'n rheolaidd. Dim ond dau berson ifanc soniodd am gymryd rhan mewn unrhyw gyfarfodydd pontio gwasanaethau cymdeithasol. Mae sylwadau'r rhieni'n ategu'r diffyg cyfranogiad hwn ym maes gofal cymdeithasol:

'Dim cyfranogiad yn eu gofal eu hunain o gwbl.'

'Dyw'r gweithiwr cymdeithasol erioed wedi cael sgwrs gyda'm merch.'

Ni soniodd neb o'r bobl ifanc fod ganddyn nhw eiriolydd annibynnol, a dywedodd y rhieni hefyd 'nad oedd sôn am eiriolaeth'. Gall eiriolydd helpu plentyn neu berson ifanc i gael llais annibynnol mewn penderfyniadau. Gall hyn fod yn arbennig o bwysig pan fydd ganddo/i farn wahanol i'r rhieni, neu os na fydd y rhieni'n teimlo eu bod yn gallu codi llais ar ran eu plentyn.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi hawl statudol i eiriolaeth broffesiynol annibynnol i bob plentyn sydd angen gofal a chymorth. Mae'r Ddeddf hon hefyd yn cynnwys rhagdybiaeth bod unrhyw blentyn sydd ag anabledd yn blentyn a fydd angen gofal a chymorth, o dan Adran 21 (7). Ar y sail hon mae'n syndod na chafwyd cyfeiriadau o gwbl, ar hyd y gwaith hwn, at eiriolaeth annibynnol, sy'n awgrymu nad yw o bosibl yn cyrraedd y plant hyn sydd â hawl i dderbyn eiriolaeth statudol.



Mae'r data gan weithwyr proffesiynol yn cadarnhau'r diffyg ymwneud ymddangosiadol:

> 'Dylai atebion fod yn blentyn-ganolog. Ond mae penderfyniadau'n cael eu gwneud heb i'r llunwyr penderfyniadau gwrdd â'r plentyn, hyd yn oed.'

> 'Mae bwlch aruthrol rhwng gweithredu person-ganolog ym marn y bobl broffesiynol a beth yw hynny mewn gwirionedd.'

Ar ben hynny, dywedodd rhai aelodau o dimau pontio gwasanaethau cymdeithasol: '...dydyn ni ddim yn gweithio gyda'r plant', gan ddisgrifio'u rôl yn hytrach fel un sy'n cydlynu gwasanaethau plant ac oedolion.

## Cyfranogiad a'r Iaith Gymraeg

Roedd teuluoedd y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt yn wynebu cyfyngiadau arbennig o ran cyfranogiad, gan nad oedd gwasanaethau ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg, yn ôl pob golwg. Crisialwyd y broblem hon orau gan weithiwr proffesiynol:

> 'Does neb yma wedi sôn am yr iaith Gymraeg, sydd fel eliffant yn y stafell. Mae'n amlwg ein bod ni'n camwahaniaethu yn erbyn plant a phobl ifanc sydd â'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt, er ein bod ni'n sôn am statws cyfartal i'r iaith ac ati mewn rhai rhannau o Gymru, does dim mynediad i wasanaethau Cymraeg, ac mewn ardaloedd eraill lle mae staff sy'n siarad Cymraeg does dim gwasanaethau o gwbl. Mae gwir angen i Lywodraeth Cymru roi trefn ar hyn, achos does dim proffil o gwbl i'r mater, hyd yn oed.' *[Gweithiwr Iechyd Proffesiynol]*

## Ymwybyddiaeth o hawliau a chyfle cyfartal

Roedd tua hanner y safleoedd gwaith maes yn hybu ymwybyddiaeth o hawliau, gyda phosteri ar y wal, a soniodd rhai o'r bobl ifanc wrth yr ymchwilwyr am CCUHP a sut roedd staff yn cefnogi gweithredu eu hawliau.

Fodd bynnag, doedd hi ddim yn amlwg sut roedd dulliau gweithredu seiliedig ar hawliau wedi cael eu rhoi ar waith yn y broses bontio, er bod dulliau gweithredu seiliedig ar hawliau yn cael eu defnyddio mewn ffyrdd eraill ar y safleoedd gwaith maes. Roedd pobl ifanc oedd yn mynychu clybiau ieuenctid, prosiectau hunan-eiriolaeth a phrosiectau pontio hefyd yn ymwybodol o hawliau pobl anabl ac yn ymddangos yn fwy abl i fynegi beth roedd hynny'n ei olygu iddyn nhw yn eu bywyd pob dydd:

> 'Peidiwch â dal yn ôl na bod â chywilydd o'ch anabledd.'

> 'Problem cymdeithas, nid eich problem chi, yw bod ag anableddau dysgu.'

> 'Mae bod ag anabledd dysgu yn rhan ohonoch chi'

Amlygodd rhai rhieni hefyd fod angen mynd ati'n fwriadol i roi cyfle cyfartal i'w mab neu eu merch er mwyn iddyn nhw fedru byw bywyd oedd yn cymharu'n deg â'u cyfoedion heb anabledd:

> 'Cael ei gwerthfawrogi fel dinesydd a bod dynol fyddai'r pwysicaf. Cael yr un cyfleoedd â'i chyfoedion, cael lleisio barn a rheolaeth ar ei bywyd, a bod ei sgiliau datblygu a'i hannibyniaeth yn parhau.'

# BYWYD Y TEULU

Mae gan rieni pobl ifanc sydd ag anableddau dysgu gyfrifoldebau gofalu ychwanegol o'u cymharu â rhieni plant heb anabledd, ac nid yw'r cyfrifoldebau gofalu hynny'n lleihau wrth i'r plentyn dyfu i fyny. Mae'n rhaid i rieni sicrhau cydbwysedd rhwng galluogi eu plentyn i ddod yn oedolyn, ochr yn ochr â pharhau i gefnogi ei (h)anghenion gofal.

Oherwydd bod rhieni'n chwarae rhan mor hanfodol yn y pontio, mae'r adran hon yn esbonio rhai o'r rhwystrau maen nhw'n eu hwynebu, yn ogystal â phersbectif pobl ifanc ar rôl eu rhieni.

Ni soniodd pob rhiant am anawsterau. Ond disgrifiodd tua hanner y cyfanswm oedd yn defnyddio gwasanaethau iechyd arbenigol a thraean o'r rhai oedd yn cyrchu gwasanaethau gofal cymdeithasol statudol pa mor anodd oedd gweithio gyda gwasanaethau iddyn nhw; gyda llawer yn cyfeirio at broblemau rheoli apwyntiadau lluosog a gwahanol wasanaethau.

## Trefnu a gweinyddiaeth personol

Mae'r dyfyniadau canlynol yn enghreifftiau sy'n dangos profiad llawer o rieni wrth geisio cydlynu gwasanaethau i'w pobl ifanc:

> 'Mae'r apwyntiadau diddiwedd wedi bod yn boen gwirioneddol, ac rwyf wedi gorfod buddsoddi llawer o amser ynddyn nhw... Mae'r gwaith papur cysylltiedig â'r GIG yn llawer o waith i mi wrth gadw trefn ar yr apwyntiadau.'

> 'Rwyf wedi darganfod bod angen i mi fod yn ysgrifennydd ac yn weinyddydd ar gyfer y tîm amlddisgyblaeth sydd i fod gan fy mab. Os na fydda i'n mynd ar eu hôl nhw, fydd yr apwyntiadau ddim yn dod, a byddwn ni'n colli asesiadau. Rydyn ni hyd yn oed wedi cael ein tynnu oddi ar restr gwasanaeth am golli apwyntiad oherwydd salwch. Gwall clercol a gostiodd werth misoedd o alwadau ffôn i mi ei unioni. Does dim cyfathrebu byth rhwng adrannau. Anaml y byddan nhw'n dod i'r cyfarfodydd adolygu... rydyn ninnau'n cael ein llethu gan y gwaith o drefnu'r ymwneud cyson â'r holl wasanaethau.'

> 'Mae rhaid i fi reoli gwahanol wasanaethau iechyd – gall fod 5 neu 6 gwasanaeth gwahanol. Rheoli gwaith papur sydd weithiau ddim yn cael ei drosglwyddo o un gwasanaeth iechyd i'r nesaf, fel bod rhaid ailadrodd hanes meddygol yn ddibendraw.'

Ar ben hynny, teimlai'r rhan fwyaf o'r rhieni hyn fod eu profiad o gefnogi eu person ifanc yn aml yn cael ei anwybyddu unwaith byddai'r person ifanc yn cyrraedd gwasanaethau oedolion:

> 'Dyw gwasanaethau oedolion ddim yn cydnabod rôl y rhieni, ac felly rydych chi'n cael eich cau allan.'

Ysgrifennodd ambell riant oedd yn teimlo eu bod yn cael gwrandawiad yn gadarnhaol am hynny mewn holiaduron:

> 'Maen nhw'n gwrando ar beth sydd gennym ni'r rhieni i'w ddweud am lesiant ein plentyn'

Mae Adran 19 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi'n glir, lle bynnag y bo hynny'n ymarferol bosibl, bod rhaid cynnwys unrhyw ofalwr sydd gan y person mewn unrhyw asesiad o angen (Adran 19), cynllunio gofal ac adolygu (Adran 54).

Mae'r cyfuniad o deimlo eu bod yn gorfod

trefnu nifer o apwyntiadau, ac eto eu bod ddim yn cael eu clywed yn ystod trafodaethau yn yr apwyntiadau hynny yn cael effaith niweidiol ar iechyd emosiynol rhieni. Dangosodd y data gonsensws o rieni'n disgrifio profiadau lle nad oeddent wedi cael cefnogaeth fel 'ymdrech', 'brwydr', 'straenus', a 'brawychus', gyda lleiafrif bach iawn yn cyfeirio at feddyliau ynghylch hunanladdiadau ac ymdrechion i gyflawni hynny, gyda sylwadau fel y rhain:

> 'Rydych chi yn cael eu gweld nhw os ceisiwch chi ddod â'r cyfan i ben... ond ddylai pethau ddim mynd mor bell â hynny.'

Mae hefyd yn ychwanegu at yr ofnau a'r pryderon sydd gan rieni ynghylch eu person ifanc wrth iddyn nhw ddod yn oedolyn, gan fod gwasanaethau oedolion yn tueddu i gynnwys rhieni'n llai na gwasanaethau plant.

## Pryderon rhieni ynghylch eu person ifanc ag anabledd dysgu

Gan mai'r rhieni oedd yn cydlynu'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau roedd eu person ifanc yn eu defnyddio, mae pontio i oedolaeth yn arwain at ofn na fydd y person ifanc yn cael mynediad i'r gwasanaethau hyn os nad yw'r rhiant yn eu cydlynu. Ochr yn ochr â hyn roedd ofn na fyddai neb yn gofalu am y person ifanc pan fyddai'r rhieni'n rhy hen i wneud hynny:

> Fy ofn mwyaf a thywyllaf yw marw a'i adael e ar ei ben ei hun yn y byd. Dwy ddim yn trystio neb i ofalu amdano fe cystal â fi... ac rydyn ni wedi wynebu cynifer o sefyllfaoedd lle roedd y gymdeithas, lle roedd y rhai sydd i fod i'n cefnogi, wedi'n gadael ni lawr.'

> 'I fod yn onest, alla i ddim goddef meddwl am y sefyllfa petai rhywbeth yn digwydd i ni.'

Roedd yr ofnau a'r pryderon dwfn hyn yn rhoi pwysau ar rieni ac yn ychwanegu at y materion emosiynol roedden nhw eisoes yn gorfod ymdopi â nhw'n ddyddiol.

## Rheoli gwaith a dyletswyddau gofalu

Disgrifiodd lleiafrif o'r rhieni eu bod wedi gorfod rhoi'r gorau i'w gwaith am amrywiaeth o resymau, oedd yn cynnwys:

- diffyg gofal plant arbenigol neu gefnogol;
- yr holl waith gweinyddu ar gyfer apwyntiadau;
- rheoli gwaharddiadau dros dro, neu ddewis addysgu gartref (lleiafrif bach oedd hwn).

Roedd y materion hyn yn broblem arbennig ar gyfer rhieni sengl a benywod. Pan oedd rhieni wedi rhoi'r gorau i'w gwaith, roeddent yn profi tlodi a thrallod wrth geisio cadw dau ben llinyn ynghyd.

> 'Alla i ddim gweithio achos does dim arian ar gyfer clwb brecwast arbenigol neu glwb ar ôl ysgol.'

> 'Roedd rhaid i mi roi'r gorau i waith amser llawn oherwydd ysgol ac apwyntiadau iechyd fy mab. Nawr rwy'n gweithio ambell awr yn rhan amser i ychwanegu at fy lwfans gofalwr.'

> 'Roedd rhaid i mi roi'r gorau i'r gwaith i ofalu amdano fe yn ystod gwyliau'r haf. (Does dim gofal ar gael i bobl ifanc 19 oed).'

## Rheoli bywyd y teulu

Roedd llawer o rieni'n teimlo bod rhaid iddyn nhw reoli bywyd y teulu yn hytrach na dim ond ei fyw neu ei brofi. Soniodd llawer o rieni am straen ceisio cyflawni dyletswyddau teuluol eraill ar yr un pryd â pharhau â'u rôl ofalu:

> 'Dwy ddim yn cael cyfle i dreulio unrhyw amser gyda phlant eraill sydd heb anabledd. Mae bywyd y teulu'n troi o gwmpas y person ifanc anabl.'

> 'Mae angen help a chefnogaeth emosiynol ar y teulu cyfan.'

## Effaith emosiynol rheoli bywyd y teulu a rôl ofalu

Disgrifiodd lleiafrif o'r rhieni sut roedden nhw wedi cael eu gadael ar eu pen eu hunain i 'ymdrechu' nes bod y sefyllfa'n troi'n argyfwng, a arweiniodd at eu person ifanc yn mynd i ofal preswyl:

> 'Aeth hi'n argyfwng, a nawr rwy wedi fy ngwahanu oddi wrth fy mhlentyn, sydd wedi mynd i leoliad preswyl.'

> 'Does dim help nes bod y sefyllfa'n troi'n argyfwng, ac yna aeth ein mab i wasanaeth preswyl, oedd yn drychineb.'

## Barn pobl ifanc ar rôl rhieni

Roedd yr holl bobl ifanc yn cydnabod bod eu rhieni'n cael trafferth cysoni rôl rhiant, rôl ofalu a chefnogi annibyniaeth, fel mae'r sylwadau hyn yn crynhoi:

> 'Maen nhw'n ceisio sicrhau eich lles pennaf, ond mae pob rhiant yn berson hefyd.'

> 'Mae angen help ar rieni i ollwng gafael, a dylen nhw wybod ble mae mynd i gael help a chyngor. Dylai fod mwy o help ar gyfer unig rieni hefyd.'

Dywedodd rhyw draean fod eu rhieni'n rhy amddiffynnol ohonynt.

Dywedodd y bobl ifanc oedd yn teimlo eu bod yn cael eu hamddiffyn yn ormodol eu bod yn teimlo fel petaen nhw 'wedi'u lapio mewn "bubble wrap"' a:

> 'Dydyn [nhw] ddim eisiau i ni gymryd risgiau, ond dyna sut rydyn ni'n dysgu'

> 'Rydw i eisiau bod ychydig yn fwy annibynnol. Maen nhw'n fy stopio.'

Dywedodd y bobl ifanc oedd ddim yn teimlo eu bod nhw'n cael eu hamddiffyn yn ormodol:

> 'Mae rhieni'n eich poeni chi am fod yn annibynnol.'

> 'Mae gen i ryddid, ac mae fy rhieni'n gofalu amdana i.'

> 'Mae Mam yn poeni amdana i, ond mae gofal ganddi amdana i, achos dim ond 17 ydw i.'

Ar ben hynny, dywedodd un person ifanc:

> 'Mae angen help rhieni a theulu arna i mewn gwirionedd, does gen i ddim dewis.'

Roedd gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol yn ategu'r teimladau bod rhieni'n gallu bod yn or-amddiffynnol, ac nad ydynt yn cefnogi pobl ifanc ag anableddau dysgu i fod yn annibynnol:


'Rwy'n cael anhawster mawr pan fydda i'n ceisio sicrhau bod rhieni'n gwireddu eu rôl o ran byw'n annibynnol ac yn helpu eu plant i ddatblygu sgiliau hunan-ofal.' *[Gweithiwr Cymdeithasol Tîm Anabledd Plant]*

'Ond mae hynny'n ddealladwy, ac mae angen i ni roi mwy o gefnogaeth i rieni, fel eu bod nhw'n gallu cefnogi eu plant i fod yn annibynnol.' *[Swyddog Pontio, mewn ymateb i'r sylw uchod]*

Mae angen i weithwyr proffesiynol gydnabod y straen emosiynol tymor hir y bydd llawer o deuluoedd wedi'i wynebu, ac y gallai profiadau gwael o wasanaethau yn y gorffennol arwain at ddiffyg ymddiriedaeth a phryder ynghylch a fydd anghenion eu plentyn yn cael eu diwallu.

Mae hefyd yn bwysig cydnabod y bydd teuluoedd yn hanfodol i lwyddiant cynllunio pontio:

Mae'r llenyddiaeth hefyd yn nodi teuluoedd fel hwylusydd allweddol wrth gynllunio pontio addysgol yn llwyddiannus. All hynny ddim gweithio ond os yw rhieni a phobl ifanc yn cael gwybod beth sy'n digwydd, os yw eu rhwydwaith cymdeithasol yn cael ei gynnwys yn rhagweithiol, ac os yw'r bobl ifanc yn cael eu clywed yn y broses, ac yn cael gwrandawiad.



# CYMORTH

Yn yr adran hon rydyn ni'n edrych ar bwy sy'n cefnogi ac yn cynorthwyo pobl ifanc a'u teuluoedd yn ystod cyfnodau pontio, a pha help mae arnyn nhw ei angen. Mae'n amlwg bod pobl ifanc yn gweld eu rhieni fel y rhai sy'n rhoi'r cymorth pennaf iddynt, gan fod 77 allan o 99 wedi rhestru eu rhieni a'u teuluoedd fel y rhai sy'n eu cefnogi. Rhestrodd bron hanner staff ysgol neu goleg, ac eraill a nodwyd fel rhai oedd yn rhoi cymorth oedd staff gyrfaoedd, staff cymorth, gweithwyr allweddol, gweithwyr cymdeithasol, yr heddlu a ffrindiau.

Roedd yn galonogol bod mwyafrif llethol y bobl ifanc yn teimlo bod ganddyn nhw rywun i'w helpu:

> 'Mae llawer o help yn yr ysgol. Gweithiwr Cymdeithasol da, sy'n barod i helpu ac mewn cysylltiad yn barhaus, fel mod i bob amser yn gwybod beth sy'n digwydd.'

Gwaetha'r modd roedd nifer bach (9%) o ymatebwyr yn teimlo nad oedd neb i roi cyngor da i chi. Roedd mwyafrif y rhain yn bobl ifanc oedd wedi gadael gofal maeth yn 18 oed ac yn teimlo'n unig, neu oedd heb berthynas dda â'u rhieni.

Er mai cyfran yn unig o'r ymatebwyr oedd â mynediad i weithiwr allweddol neu brosiect pontio, roedd gwerth uchel yn cael ei osod arnynt fel ffynhonnell cymorth ac arweiniad:

> 'Mae fy ngweithiwr allweddol yn gwneud popeth' (dim ond 25 o bobl ifanc oedd â mynediad i weithwyr allweddol).

## Cymorth i rieni

Mae'r rhieni, fel y bobl ifanc, yn cael cymorth yn bennaf gan aelodau o'r teulu. Dyma'r brif ffynhonnell cymorth y cyfeiriwyd ati gan rieni (38%). Gwaetha'r modd, yr ymateb nesaf mwyaf cyffredin oedd 'neb' (32%). Cyfeiriwyd yn llai aml at weithwyr cymdeithasol, ffrindiau a'r ysgol neu'r coleg. Efallai ei bod hi'n llai o syndod mai anaml y cyfeiriwyd at weithwyr iechyd proffesiynol a grwpiau cefnogi cyfoedion.

## Gyda beth mae eich pobl ifanc eisiau help?

Roedd y bobl ifanc yn glir iawn ynghylch y pethau y mae arnyn nhw angen help i'w cyflawni wrth bontio.

- **Trafnidiaeth:** 'Y gost, hyder a thocynnau', 'Mae angen i mi gael cyfarwyddiadau neu fod trefniadau teithio wedi'u gwneud.'
- **Cyngor ar gyfer astudio:** 'Cyrsiau cyfyngedig sydd ar gael ac mae rhaid i chi ddewis', 'Rwy'n cael bod cymwysterau'n anodd iawn, mae'r arholiadau'n galed.'
- **Materion ariannol:** 'Rwy'n poeni am arian, talu biliau a chyllidebu.'
- **Sgiliau bywyd ac annibyniaeth:** 'Help i ofalu amdanoch eich hun', 'Gwneud eich gwaith tŷ a golchi eich dillad eich hun', 'Symud i gartref â chymorth a sut mae gwneud hynny', 'Dewrder i fynd i leoedd newydd'
- **Gwaith:** 'Cael hyd i swydd', 'Help i lenwi ffurflenni cais'
- **Rheoli cyfeillgarwch:** 'Gwneud ffrindiau newydd yn y coleg'
- **Dewisiadau:** 'Dewisiadau o ran sut a phwy rydych chi'n trystio, ar sail cyngor da'

## Beth fyddai'n fwy o help i rieni?

Pan ofynnwyd iddyn nhw: 'Pa help hoffech chi gael?' nododd rhieni'r canlynol:

- **Egwyliau seibiant.** Dywedodd llawer o rieni eu bod nhw am gael egwyliau seibiant i orffwys oherwydd eu bod yn teimlo wedi ymlâdd yn gorfforol. Roedd rhai rhieni hefyd yn teimlo y dylid defnyddio seibiant i hybu sgiliau cymdeithasol a sgiliau byw'n annibynnol eu person ifanc.
- **Rhywun fydd yn gwrando ac yn rhoi cyngor.** Roedd hyn yn amrywio o 'unrhyw un sy'n barod i wrando' i 'ganllawiau ar gyfer mynd trwy'r systemau', hyd at 'esboniadau ar y pethau y gellir eu hawlio a'r cyfleoedd ym myd addysg.'
- **Gwell ffynonellau o wybodaeth ac amserau cyfarfod hyblyg ar gyfer rhieni sy'n gweithio ac unig rieni.** Roedd unig rieni oedd yn gweithio yn arbennig yn tynnu sylw at anhawster cadw trefn ar bopeth. Ymhlith yr awgrymiadau roedd taflenni ar-lein a chefnogaeth trwy'r cyfryngau cymdeithasol, gweithgareddau cymorth i ofalwyr gyda'r hwyr ac ar y penwythnos, a chymorth cymheiriaid ar-lein.
- **Cefnogaeth emosiynol i rieni.** Roedd rhieni'n cydnabod bod pontio'n gyfnod arbennig o emosiynol, a'u bod yn gallu cael help gan ei gilydd, ond bod angen hefyd iddyn nhw gael cefnogaeth ar gyfer eu llesiant emosiynol.
- **Help gyda thrafnidiaeth.** Roedd angen help ar rai rhieni i gludo'u plentyn i'r ysgol, tra bod eraill yn dweud bod angen help arnyn nhw gyda phob cludiant, oherwydd bod eu person ifanc yn methu defnyddio cludiant cyhoeddus.
- **Cymorth hyblyg.** Tynnodd rhai rhieni sylw at y ffaith nad oes dewis o wasanaethau ac nad yw 'un patrwm i bawb yn gweithio'.

Ac eithrio cymorth ar gyfer trafnidiaeth, mae pobl ifanc a rhieni'n gofyn am help gyda phethau sydd rywfaint yn wahanol. Dywedodd y bobl ifanc fod angen help gyda sgiliau ymarferol ar gyfer oedolaeth (e.e. materion ariannol, rheoli gwaith), tra bod y rhieni'n dweud bod angen gwybodaeth dda a chefnogaeth emosiynol arnyn nhw.
Gallai cynllunio pontio effeithiol sy'n cydnabod pwysigrwydd perthnasoedd teuluol gynnwys anghenion y rhieni ar wahân i anghenion y plentyn; ar sail y dystiolaeth bod rhieni'n ffynhonnell sylfaenol, amhrisiadwy o gefnogaeth i'r bobl ifanc.

Mae'r llenyddiaeth hefyd yn cyfeirio at adnodd nad yw'n cael ei ddefnyddio'n ddigonol ar y cyfan ym maes cynllunio pontio. Mae'r ymchwilwyr yn nodi bod rhwydweithiau cymdeithasol presennol a rhwydweithiau teulu yn gallu gweithredu fel ffynonellau cymorth sylweddol. Mae'r neges hon yn cyfateb i'r pwyslais cynyddol ar ddulliau gweithredu seiliedig ar asedau ym maes gofal cymdeithasol, a dylen nhw fod yn rhan o unrhyw gynllunio ar gyfer pontio addysgol.

# CAEL MYNEDIAD I WASANAETHAU

Mae'r rhan fwyaf o'r sylwadau yn yr adran hon yn dod oddi wrth rieni a gweithwyr proffesiynol, oherwydd bod rhieni'n fwy tebygol o fod yn ceisio cael mynediad i wasanaethau ar ran y person ifanc. Dylid nodi bod llawer o sylwadau yn holiaduron y rhieni sydd heb eu cynnwys yma oherwydd eu bod nhw ddim yn ymwneud yn benodol â phontio, ond lle roedden nhw'n mynegi teimladau cryf. Mae hyn yn cynnwys yr anawsterau wrth gael diagnosis er mwyn datgloi mynediad i wasanaethau, a mynediad i wasanaethau iechyd meddwl. Byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth hon mewn gwaith polisi a dylanwadu arall.

## Cael mynediad i wasanaethau iechyd

Nid oedd rhyw draean o'r holl ymatebwyr oedd yn rhieni yn defnyddio gwasanaethau iechyd arbenigol, felly dim ond dau draean o'r ymatebwyr oedd â sylwadau i'w gwneud ynghylch gwasanaethau iechyd, ac o'r rheiny, soniodd hanner am brofiadau negyddol oedd yn achosi rhwystredigaeth (h.y. traean o'r holl ymatebwyr). Fel sy'n digwydd yn aml mewn gwaith ymchwil hunan-lenwi, nid esboniodd yr ymatebwyr beth oedd yn gweithio'n dda yn y gwasanaethau iechyd.

Pan fydd person ifanc yn cael ei atgyfeirio wrth gyrraedd oed pontio, gall gwasanaethau iechyd gymryd amser i benderfynu at ba wasanaeth y dylid cyfeirio'r person ifanc, sy'n achosi oedi o ran penderfyniadau a mynediad:

> 'Cafodd ei atgyfeirio gan ymgynghorydd (ar gyfer ThG), mae'n cymryd mor hir i gael y driniaeth. Oherwydd ei fod yn 15 treuliodd y bwrdd iechyd 6 mis yn "penderfynu" pwy ddylai ei drin, gwasanaethau oedolion, y ganolfan plant leol neu ffisio'r ysgol... yn y pen draw y cyfan y gallen nhw ei gynnig i fi oedd sesiwn i ddangos i fi beth i'w wneud wrth i ni aros am 6 mis arall i gael slot rhydd yn y pwll hydro.'

Gall lleoliadau preswyl rwystro mynediad i wasanaethau iechyd. Roedd y sylw isod yn brofiad cyffredin i rieni yr oedd eu pobl ifanc mewn lleoliadau addysg preswyl:

> 'Yn 2015 dywedodd CAMHS ger yr ysgol fod angen ymyriad arno, ond roedden nhw'n gwrthod ei ddarparu oherwydd ei fod mewn ysgol breswyl. Pan ddaeth adre, roedd hi'n wythnos ar ôl ei ben-blwydd yn 18, felly roedd yn dod o dan y gwasanaethau oedolion. Bu'n rhaid i ni frwydro iddo gael gweld rhywun, ar y cychwyn cafodd ei gyfeirio at y seiciatrydd oedd yn gysylltiedig â'r tîm anabledd dysgu, ond doedd e ddim yn bodloni'r meini prawf anabledd dysgu. Yn y pen draw cafodd ei weld gan seiciatrydd a'i gyfeirio at seicolegydd a fu'n cwrdd ag ef yn wythnosol, cyn stopio ei weld er mwyn cynorthwyo gweithwyr cymorth, sydd heb fod mewn cysylltiad ers hynny.'

Mae'r llenyddiaeth hefyd yn nodi is-grŵp penodol o bobl ifanc ag anableddau dysgu sy'n wynebu anawsterau penodol wrth bontio: pobl ifanc sy'n byw y tu allan i'r ardal. Mae heriau arbennig ynghlwm wrth eu mynediad i'r GIG a gwasanaethau gofal, gan eu bod yn aml yn cael eu hystyried yn breswylwyr dros dro yn unig.



## Mynediad i addysg bellach

Roedd mynediad i addysg bellach yn amrywio yn ôl a oedd y person ifanc yn cael mynediad i gwrs prif ffrwd neu arbenigol, a lefel y gefnogaeth y gallai fod ei hangen ar y person ifanc. Dywedodd 79% o'r holl ymatebwyr oedd yn rhieni eu bod yn pryderu a fyddai eu plentyn yn gallu parhau i ddysgu yn y coleg.

Roedd tuedd i'r rhieni a wnaeth sylwadau ychwanegol ynghylch addysg ganolbwyntio ar anghenion eu plant a gofyn am ddarpariaeth arbenigol. Roedd ganddyn nhw lefelau uchel o bryder ynghylch addysg ôl-ysgol wedi i'w plentyn gyrraedd 19 oed:

> 'Does dim colegau lleol ar gyfer pobl ag anableddau difrifol. Rydyn ni'n cael ein gwthio i fynd i system breswyl. Dydyn ni ddim eisiau hynny.'

> 'Bydd angen lleoliad coleg hygyrch arno ar ôl cyrraedd 19 oed. Hyd yma mae'r unig goleg rydyn ni'n ymwybodol ohono dros 100 milltir i ffwrdd. Ar ben hynny, mae'n breifat a bydd yn anodd cael cyllid ar ei gyfer. Bydd pob asiantaeth yn dadlau eu bod nhw'n methu talu. Mae'n llwybr anodd iawn i sicrhau'r pethau mae ar fy mab eu hangen.'

Roedd y diffyg dewisiadau oedd ar gael yn golygu bod rhai pobl ifanc yn mynd i leoliadau y tu allan i'r sir, ac ambell waith, byddai'r diffyg dewis yn dod ag addysg y person ifanc i ben:

> 'Wedi gadael y coleg nawr, ond bu'n rhaid mynd allan o'r sir i fodloni'r anghenion!'

> 'Mae fy mab yn 19 nawr, fe aeth e i'r coleg, ond roedd e mewn uned arbennig, a doedd ganddyn nhw ddim byd fyddai'n gadael iddo aros yn y coleg ar ôl i'r cwrs anghenion arbennig ddod i ben.'

> 'Mae gan fy mab awtistiaeth difrifol, ac mae'n ddi-eiriau gydag ymddygiad heriol. Lle rydw i'n byw does yna unman iddo fynd.'

## Newid trothwyon rhwng gwasanaethau plant ac oedolion

Yn ôl disgrifiadau'r rhieni roedd gan bob un o'r tri gwasanaeth statudol wahanol drothwyon rhwng gwasanaethau plant ac oedolion.

Yn gyffredinol, mae'r paratoi ar gyfer pontio yn amrywio'n fawr rhwng gwahanol ranbarthau yn ogystal â rhwng gwahanol wasanaethau. Er enghraifft, bu 8 rhiant o wahanol ardaloedd yn trafod ar ba oed roedd pontio'n digwydd ym maes gofal cymdeithasol:

> 'Rydych chi'n cael eich gollwng yn 16,17,18 oed' *[h.y. gwahanol oed yn achos gwahanol ymatebwyr]*

> 'Maen nhw'n tynnu'n ôl yn 14 i'ch paratoi ar gyfer gwasanaethau oedolion sydd ddim yno.'

Fodd bynnag, yn achos pob gwasanaeth roedd cytundeb bod:

> 'Rhaid i chi ffitio'r diagnosis a'r trothwyon ar gyfer gwasanaethau oedolion.'

Disgrifiwyd trothwyon oedd yn newid adeg pontio, gyda rhai gwasanaethau'n hygyrch dim ond trwy gael mynediad i wasanaethau eraill. Er enghraifft, esboniodd un rhiant hyn mewn perthynas â gwasanaethau iechyd meddwl oedolion a'r ysgol:

> 'Fe aeth [e] i ysgol brif ffrwd. Mae llawer o feini prawf diangen ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion, e.e. os aeth eich plentyn i ysgol brif ffrwd fydd yr awdurdod ddim yn barnu bod ganddo anabledd dysgu, er bod hynny'n wir. Mae hynny'n golygu wedyn bod dim hawl i weld y tîm anabledd, felly rydych chi'n gweld y tîm arferol sy'n methu helpu oherwydd bod awtistiaeth arno fe!! Felly dydych chi ddim yn gweld neb, fel sydd wedi digwydd yn achos fy mab.'

> 'Pan fydd cyfnod y plentyn gyda'r gwasanaethau pediatrig yn gorffen, bydd y gofal, y rhwydwaith cefnogi a'r ddealltwriaeth yn diflannu hefyd. Mae gwasanaethau oedolion yn gweithredu'n wahanol iawn, gan weld y claf yn fwy ar sail argyfwng nag er mwyn gwneud gwaith cynnal.'

Canfu rhai teuluoedd eu bod wedi'u 'rhyddhau' cyn pontio, ac felly eu bod yn methu cael mynediad i wasanaethau oedolion. Canfu eraill fod gwasanaethau'n dod i ben yn 18 oed, a bod rhaid iddyn nhw wneud cais am wasanaethau oedolion:

> 'Mae seibiant yn gorffen yn 18 ac mae rhaid i ni gyflwyno cais o'r newydd i'r gwasanaethau oedolion. Fe allai ddigwydd neu beidio, a bydd yn golygu llu o weithwyr newydd.'

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cynnwys darpariaeth a ddylai fod, erbyn hyn, yn dechrau gwella'r pontio rhwng gwasanaethau cymdeithasol plant ac oedolion. Nid dyna oedd profiad mwyafrif yr ymatebwyr i'r astudiaeth hon eto. Yn yr un modd, dylai Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, yn y dyfodol, gynorthwyo gyda dilyniant Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) o oed gadael yr ysgol hyd at 25 oed.

## Materion mynediad a darparu sy'n gyffredin i bob gwasanaeth statudol

**1. Mynediad sy'n dibynnu ar gyllidebau**
Teimlai rhieni fod 'penderfyniadau'n aml yn dibynnu ar y gyllideb' o ran darpariaeth gwasanaeth, yn hytrach na chael eu seilio ar anghenion eu pobl ifanc. Roedd canfyddiad bod hynny'n wir, pa wasanaeth penodol bynnag oedd dan sylw:

> 'Rydw i eisiau iddo fe gael cyfle cystal â phosibl, a chael cyfleoedd ar gyfer addysg a dysgu pellach. Mae ein cyngor lleol yn ceisio pennu ble dylai fy mab fynd, ac wrth gwrs mae hynny'n gysylltiedig â'u cyllidebau.'

> 'Mae mynediad i'r rhan fwyaf o wasanaethau iechyd, h.y. ffisio, iaith a lleferydd ac ati, wedi dod i ben oherwydd cyfyngiadau cyllideb.'

**2. Modelau gwasanaeth anhyblyg**
Roedd gweithwyr proffesiynol yn cydnabod bod bylchau yn achos pobl ifanc oedd ddim yn bodloni trothwyon penodol neu oedd ddim yn ffitio i feini prawf penodol, ac roedden nhw'n esbonio hynny yn nhermau defnyddio modelau anhyblyg:

> 'Mae angen i ni fod yn gofyn beth sydd ei angen ar bobl, yn hytrach na pha wasanaethau sydd ar gael.'

> 'Mae gwasanaethau'n anhyblyg, maen nhw'n gofyn i bobl 'ymateb' i'r gwasanaeth yn hytrach na bod y gwasanaeth yn ymateb i'w hanghenion.'

Bu llawer o rieni a gweithwyr proffesiynol yn trafod y diffyg dewis mewn gwasanaethau a sut roedd pobl ifanc yn cael eu "slotio i mewn" i'r ddarpariaeth bresennol yn hytrach na gallu cael gwasanaethau unigol. Sylw enghreifftiol ynghylch seibiant oedd:

> 'Mae seibiant yn cael ei drefnu o amgylch y gwasanaeth, yn hytrach nag o amgylch y bobl sy'n rhan ohono.'

**3. Penderfyniadau hwyr**
Soniodd rhieni a gweithwyr proffesiynol am sut roedd penderfyniadau hwyr yn achosi pryder ac ansicrwydd, er bod y cynllunio'n digwydd dros gyfnod o flynyddoedd:

> 'Penderfyniadau hwyr a mynediad i wasanaethau gofal cymdeithasol. Mae'n bendant yn amrywio o un ardal i'r nesaf. Mae gennym ni un Swyddog Cynllun Pontio sydd i bob pwrpas yn cadw llygad ar 200 o bobl ifanc o ddau dîm gwahanol.' [Y tîm plant anabl]

> 'Rydyn ni'n cynllunio ar gyfer 15 oed a throsodd, ond mae penderfyniadau'n digwydd yn hwyr, ac mae hynny'n golygu bod pontio llwyddiannus yn anodd.' [Staff Addysg]

> 'Yn ddiweddar cafodd un Person Ifanc benderfyniad ar y funud olaf un ynghylch dilyniant gofal iechyd, y diwrnod cyn i ni eu pontio.' [Gweithiwr Iechyd Proffesiynol]

> 'Mae fy mab bron yn 19, a does gennym ni ddim trefniadau ariannu pendant ar gyfer ei addysg ôl-19. Mae wedi bod yn annibendod llwyr ers i mi ddechrau cynllunio'r pontio iddo fe pan oedd e'n 13.'

Ceir tystiolaeth glir o heriau darparu pontio llyfn ar draws lliaws o wasanaethau yn yr astudiaethau ymchwil a adolygwyd:

'Prif her pontio o hyd yw gwahanol strwythurau gwasanaeth rhwng y sector plant ac oedolion, agweddau gwahanol at ofal, meini prawf cymhwysedd gwahanol a sectorau darniog yn y ddarpariaeth oedolion. Ar yr union adeg pan fydd pobl ifanc yn wynebu newidiadau biolegol, yn aeddfedu ac yn dod yn fwy penderfynol, mae gwasanaethau darparwyr trydyddol oedolion, megis ymddiriedolaethau iechyd meddwl, y GIG a'r gwasanaethau cymdeithasol lleol yn gweithredu'n wahanol i'r rhai yn y sector plant. Mae hynny'n aml yn arwain at oedi parhaol yn y pontio o'r sector plant i'r sector oedolion neu bod y gwasanaeth yn dod i ben.'

'Rhan bwysig o'r holl gynllunio llwyddiannus ar gyfer pontio yw bod pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael gwybodaeth reolaidd ar hyd y broses, ac mae'r llenyddiaeth yn dangos bod llawer o bobl ifanc a'u teuluoedd yn cael eu gadael yn y tywyllwch ynghylch y dyfodol nes ei bod hi'n hwyr iawn yn y dydd.'

# ANSAWDD GWASANAETHAU

## Darpariaeth amrywiol

Mae gwahanol ranbarthau ac awdurdodau lleol yn darparu gwahanol wasanaethau. Er enghraifft, roedd rhai awdurdodau'n darparu gweithwyr pontio allweddol (sy'n cael croeso mawr gan deuluoedd), mae gan eraill brosiectau hunan-eiriolaeth ac eiriolaeth cymheiriaid, ond ymddengys bod llawer heb y naill na'r llall o'r darpariaethau hyn. Mae ffocws mewn rhai awdurdodau lleol ar gefnogaeth mewn ysgolion prif ffrwd, ond nid yw hynny'n digwydd mewn eraill. Mae rhai awdurdodau lleol yn comisiynu clybiau ieuenctid arbenigol, tra bod eraill yn talu am becynnau cymorth unigol heb gyfleoedd i gymdeithasu â chyfoedion. Canfu ein gwaith ymchwil hefyd fod gan rai ardaloedd weithwyr cymdeithasol pontio a bod gan eraill bontio o'r gwasanaethau plant i oedolion. Er bod rhai awdurdodau lleol wedi symud i gyfeiriad timau pob oed yn ddiweddar, nid oedd gan neb o gyfranogwyr yr astudiaeth brofiad ohonynt.

## Paratoi ar gyfer annibyniaeth

Cafwyd peth beirniadaeth gan rieni a gweithwyr proffesiynol nad yw ysgolion prif ffrwd yn canolbwyntio ar sgiliau bywyd sy'n angenrheidiol er mwyn pontio'n llwyddiannus i oedolaeth, gan ganolbwyntio'n hytrach ar bynciau craidd a pharodrwydd i weithio. Serch hynny, gwelwyd hefyd nad oedd rhai ysgolion arbennig yn paratoi pobl ifanc ar gyfer oedolaeth o ran pynciau craidd, sgiliau darllen a sgiliau bywyd:

> 'Er mod i'n gwerthfawrogi'r angen am bynciau craidd, heb sgiliau bywyd mae popeth yn rhwystr mewn bywyd pob dydd wrth bontio i oedolaeth.'

> 'Rydw i mewn braw ynghylch dyfodol fy merch. Mae'r system addysg wedi bod yn fethiant llwyr iddi. Rwy'n realistig iawn am ei chyrhaeddiad addysgol. Fy unig ddymuniad erioed oedd ei bod hi'n dysgu sgiliau bywyd i'w helpu i fyw'n annibynnol a bod â lefel dda o hunan-barch, er mwyn iddi fedru chwarae rhan weithredol yn y gymdeithas.'

Teimlai rhai pobl ifanc hŷn fod y gwasanaethau addysg wedi'u siomi'n llwyr yn ystod y cyfnod pontio, ac roedden nhw'n rhestru elfennau allweddol ar gyfer gallu byw'n annibynnol oedd heb gael eu cynnwys yn eu haddysg. Elfen gyffredin i hyn i gyd oedd nad oedd y dysgu a gawsant yn ymwneud â bywyd pob dydd yn ymarferol, a'i fod wedi digwydd yn rhy hwyr yn y broses addysg.

## Gweithio ar y cyd

Nododd rhieni a gweithwyr proffesiynol feysydd tebyg ar gyfer gwelliannau i'r trefniadau gweithio ar y cyd presennol.

## Cyfathrebu

Roedd gweithwyr proffesiynol yn cydnabod bod diffyg cyfathrebu neu lefel wael o gyfathrebu yn aml rhwng gwasanaethau, ac nad oedd gwybodaeth yn cael ei rhannu yn ôl yr angen. Roedd profiadau negyddol rhieni yn aml wedi'u seilio ar gyfathrebu gwael.

## Cydlynu a phenderfyniadau gwael

Amlygodd rhieni, er bod cyfarfodydd a thrafodaethau ynghylch pontio yn digwydd cyn i berson ifanc gyrraedd 18 oed, nad oedd neb yn cydlynu'r pontio, ac felly bod oedi gyda phenderfyniadau:

> 'Does dim cefnogaeth nac arbenigedd trosfwaol ac mae rhieni'n cael eu gorfodi i fod yn berson cyswllt yn barhaus.'

'Rydw i wedi bod yn eithriadol o ragweithiol wrth gynllunio pontio, ond er gwaethaf hynny mae'r canlyniadau sy'n dod trwy bontio wedi bod yn wael iawn, mae ym mlwyddyn olaf ei addysg (un tymor i fynd), ac rydyn ni'n DAL heb gytundeb ynghylch darpariaeth addysg na chefnogaeth gymdeithasol.'

'Pwy sy'n gwneud y penderfyniadau? Mae'n cymryd oes i gael cytundeb.'

Soniodd gweithwyr proffesiynol hefyd am ansawdd gwael y cynllunio a'r penderfyniadau rhwng gwasanaethau:

'Rwy'n credu mai'r anhawster pennaf o ran sicrhau bod gwasanaethau'n ymateb i'r angen yw'r ffaith bod gormod o bobl yn ymwneud â'r sefyllfa i wneud penderfyniadau effeithiol. Weithiau rydyn ni'n llythrennol heb ddigon o gadeiriau yn y stafell, bu gennym ni 18 o weithwyr proffesiynol yn y stafell ar gyfer un unigolyn, a dim un penderfyniad yn cael ei wneud.' *[Pennaeth darpariaeth arbenigol]*

'Rydw i wedi eistedd mewn cyfarfodydd gyda'r holl wahanol broffesiynau yma... (rhestru ambell un), ac wedi ceisio dyfalu faint o gyflog maen nhw'n ei gael, a faint mae'r cyfarfod yma'n ei gostio, a hynny heb i un penderfyniad gael ei wneud. Maen nhw i gyd yn gadael y cyfarfod yn disgwyl i rywun arall wneud y penderfyniad.' *[Gweithiwr Cymdeithasol Pontio]*

## Comisiynu a chynllunio strategol

Disgrifiodd y gweithwyr proffesiynol rai problemau cyffredinol wrth gomisiynu a chynllunio ar gyfer pobl ifanc ag anableddau dysgu:

'Mae tensiwn rhwng y gwasanaeth sy'n comisiynu a'r hyn sydd ar gael. Efallai na fydd yr hyn sydd ar gael yn addas at yr anghenion, ac mae angen i ni ganolbwyntio ar y gefnogaeth orau i'w hanghenion yn hytrach na symud ymlaen heb flaengynllunio.' *[Gweithiwr Cymdeithasol]*

'Mae'r ffaith bod arian gwahanol ar gael ar gyfer gwahanol rannau o'r problemau yn golygu nad yw pobl yn gweithio gyda'i gilydd.' *[Gweithiwr Iechyd Proffesiynol]*

'Er bod gennym ni strategaeth ar gyfer awtistiaeth, does dim strategaeth ar gyfer anableddau dysgu, ac mae hynny'n achosi dryswch wrth gynllunio'n strategol rhwng y ddau faes o anghenion, mae'n amharu ar y cynllunio strategol cyffredinol ac yn rhoi pwysau ar y gwasanaethau anableddau dysgu.' *[Gweithiwr Iechyd Proffesiynol]*

Profiad rhieni o'r problemau hyn yw eu bod, er enghraifft, heb becynnau gofal yn eu lle cyn i gynlluniau gofal gael eu paratoi, a diffyg arweiniad wrth baratoi ar gyfer newidiadau a fyddai'n digwydd yn 18 oed.

# ARFER DA ODDI MEWN I WASANAETHAU

Er bod y data'n dangos nifer o broblemau'n eglur, a bod y diffyg cysondeb ar lefel genedlaethol yn creu rhwystrau ychwanegol yng nghyswllt nodi arfer da, fe wnaeth pobl ifanc, rhieni a gweithwyr proffesiynol nodi enghreifftiau o arfer da yma ac acw.

## Gweithwyr proffesiynol sy'n cydlynu

Roedd y data'n dangos yn eglur, pan fyddai gan bobl ifanc weithiwr allweddol, boed hynny trwy brosiect sector gwirfoddol neu'r gwasanaethau statudol, eu bod yn teimlo'n hyderus ynghylch pontio ac yn meddu ar berson penodol hygyrch oedd yn gallu cydlynu'r pontio gyda'r teulu:

> 'Mae bod ag un gweithiwr allweddol ar gyfer y broses gyfan yn beth positif, hyd yn oed os nad yw'r pontio'n llwyddiannus 100%; mae'r dilyniant yna'n beth positif, a hefyd estyn y gefnogaeth y tu hwnt i'r oed lle mae hynny'n digwydd nawr.'

Mewn achosion lle roedd y sector gwirfoddol yn arwain neu'n gyfrifol am waith allweddol neu gydlynu gwasanaethau, roedd hynny'n dibynnu ar newidiadau ariannu, ac yn tueddu i fod yn drefniant tymor byr, tra bod gwaith allweddol oedd yn cael ei ddarparu gan y gwasanaethau statudol yn golygu nid yn unig bod tuedd i lais y gweithiwr allweddol fod yn fwy awdurdodol, ond hefyd bod mwy o ddilyniant yn narpariaeth y gwasanaeth.

Mewn ardaloedd lle nad oedd gweithwyr allweddol na phrosiectau pontio, roedd y rhieni'n canmol gweithwyr proffesiynol eraill oedd yn cyflawni rôl gydlynu, gan gynnwys athrawon, Meddygon Teulu a phediatregwyr.

## Pobl broffesiynol sy'n gweithio 'gyda'r person'

Ni chyfeiriwyd at unrhyw swydd neu sector benodol fel rhan o'r dull gweithredu hwn. Roedd rhieni a phobl ifanc yn canmol gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr a fu'n gweithio gyda nhw heb ddiffinio'r person ifanc yn ôl yr anabledd dysgu, er eu bod yn cydnabod yr angen am gymorth. Ymddangosai fod gweithwyr proffesiynol oedd yn defnyddio'r dull gweithredu hwn yn tueddu i fod yn weithwyr rheng flaen, ond roeddent yn cynnwys amrywiaeth o 'staff meddygol prif ffrwd' (e.e. Damweiniau ac Achosion Brys a deintyddion), rhai athrawon, rhai gweithwyr ieuenctid, gweithwyr pontio ac allweddol, a rhai gweithwyr cymdeithasol.

## Prosiectau pontio ac eiriolaeth (gan gynnwys gweithwyr allweddol)

Roedd gweithwyr proffesiynol, rhieni a phobl ifanc yn gosod gwerth uchel ar y rhain, sy'n cael eu darparu'n bennaf, er nad yn ddieithriad, gan y sector gwirfoddol. Ymddangosai mai eu llwyddiant oedd gwybod beth y gellid ei hawlio yn ogystal ag argaeledd gwasanaethau'n lleol, bod mewn perthynas dda ag amrywiaeth o weithwyr proffesiynol, bod yn gydlynwyr i deuluoedd, gweithio gyda rhieni ynghylch eu hofnau a'u pryderon, a hefyd gyda phobl ifanc ynghylch eu blaenoriaethau ymarferol a'u hyblygrwydd.



# FFRINDIAU, BYWYD CYMDEITHASOL A THRAFNIDIAETH

Nododd pobl ifanc gadw cyfeillgarwch a gwneud ffrindiau newydd fel prif flaenoriaeth yn ystod y broses bontio, yn ogystal â nodi 'rheoli cyfeillgarwch' fel rhywbeth roedd arnynt angen help i'w wneud wrth bontio. Fodd bynnag, cyfyngedig yw cyfleoedd llawer ohonynt i gael bywyd cymdeithasol y tu allan i'r teulu.

Yn ogystal â'r anawsterau ynghylch trafnidiaeth, roedd y bobl ifanc yn wynebu cyfleoedd cyfyngedig i gymdeithasu yn sgîl ffactorau eraill:

- **Peidio ag adnabod llawer o bobl ifanc yn eu cymdogaethau.** Roedd hon yn broblem yn arbennig i bobl ifanc oedd yn cael eu haddysg ar wahân (naill ai mewn unedau mewn ysgolion prif ffrwd neu mewn ysgolion arbenigol) oherwydd bod hynny'n golygu eu bod nhw ddim yn adnabod pobl ifanc oedd yn byw gerllaw neu yn eu cymdogaeth gan nad oedd ffrindiau o'r ysgol o fewn pellter cerdded.
- **Peidio â mynychu clybiau ieuenctid prif ffrwd neu ddefnyddio gweithgareddau prif ffrwd.** Nid oedd mwyafrif llethol y bobl ifanc yn mynd i unrhyw glybiau neu weithgareddau prif ffrwd, felly roedd eu cyfleoedd i gymdeithasu'n dibynnu ar ddarpariaeth ar wahân. Dim ond unwaith y mis yr oedd rhai o'r bobl ifanc yn mynd i glwb ieuenctid arbenigol, ond at ei gilydd roedden nhw'n cael eu cynnal unwaith yr wythnos yn ystod y tymor. Y clybiau hyn oedd yr unig gyfleoedd a gâi'r bobl ifanc hyn i gymdeithasu. Ymddangosai fod rhyw 5 o'r 99 o bobl ifanc yn mynychu cyfleoedd hamdden neu gymdeithasu prif ffrwd.

Soniodd y cyfranogwyr am gymdeithasu gyda'r teulu gyda'r hwyr, ar y penwythnos ac yn ystod y gwyliau, ac roedd rhieni, brodyr a chwiorydd a'r teulu ehangach yn cyflawni rôl bwysig o ran darparu cyfleoedd i gymdeithasu.

Roedd nifer helaeth o'r rhieni'n pryderu y gallai eu person ifanc ddioddef ynysu, gan fod 83% o'r ymatebwyr oedd yn rhieni ateb 'ydw' i'r cwestiwn 'Ydych chi'n pryderu y gallai eich plentyn gael ei ynysu'n gymdeithasol?' (h.y. 155 allan o 187).

Dywedodd 68% nad oedd eu plentyn byth neu braidd byth yn cymdeithasu nac yn mynd allan gydag unrhyw un heblaw'r teulu neu staff cyflogedig.

Er bod rhai rhieni'n besimistaidd am allu eu plentyn i gael ffrindiau, neu'n poeni am fwlio, galwodd eraill am well cefnogaeth ar gyfer cynhwysiad a dysgu sgiliau cymdeithasol:

> 'Cefnogaeth emosiynol a chymdeithasol o ran cynhwysiad.'

> 'Mae fy mab eisiau cael bywyd normal i'r arddegau. Mae arno angen ffrindiau o'r un grŵp oed.'

## Gwasanaethau sy'n cefnogi cymdeithasu

Disgrifiodd gwasanaethau eiriolaeth cyfoedion a phontio sut bydden nhw'n cefnogi aelodau'r grŵp i gadw mewn cysylltiad â'i gilydd trwy eu cefnogi i ddefnyddio ffonau a chadw rhestrau cyswllt, anfon negeseuon testun i'w hatgoffa, a gwneud cynlluniau gyda phobl ifanc i estyn eu defnydd o gludiant cyhoeddus.

Roedd clybiau ieuenctid arbenigol yn amhrisiadwy i bobl ifanc oherwydd eu bod yn rhywle lle gallai pobl ifanc feithrin hyder, teimlo'n ddiogel a chwrdd â chyfoedion, ond roeddent yn cynnig un cyfle oed-gyfyngedig yn unig, yn hytrach na galluogi rhwydweithiau cymdeithasol i dyfu.

Nid yw rhai ardaloedd awdurdod lleol yn cefnogi gweithgareddau grŵp; yn hytrach maen nhw'n cynnig nifer penodol o oriau o gymorth i unigolion fynd allan ar wahân i'r teulu. Er bod hynny'n cynnig

egwyl y mae mawr angen amdano i deuluoedd ac yn sicrhau bod pobl ifanc yn gadael y tŷ, nid yw'n cynnig gweithgareddau cymdeithasu nac ymwneud â chyfoedion.

Mae adroddiad diweddar gan brosiect DRILL, a arweiniwyd gan gyfoedion, yn darparu llawer rhagor o wybodaeth am brofiadau pobl ifanc ag anableddau dysgu yng Ngwent o gyfeillgarwch ac ynysu cymdeithasol.[11]

## Effaith bwlio a materion diogelwch

Dywedodd llawer o rieni eu bod yn 'pryderu am fwlio'. Roedd y bobl ifanc hefyd yn pryderu am fwlio, ac roedd rhai ohonynt wedi profi peth bwlio eithafol:

> 'Fe ges i fy mwlio pan oeddwn i'n 16. Fe roeson nhw fy siaced ar dân pan oeddwn i'n ei gwisgo.' *(Benyw ifanc dros 21 oed)*

Esboniodd dyn ifanc arall ei fod wedi cael ei fwlio gan yr un bobl ifanc ers ei blentyndod (roedd e dros 21), a bod hynny'n parhau yn ystod oedolaeth. Roedd ganddo ap ar ei ffôn oedd yn anfon neges destun yn rhybuddio am argyfwng i'w holl gysylltiadau, fel ei fod yn gallu rhoi gwybod iddyn nhw petai e'n gweld y bobl dan sylw.

Dywedodd llawer o'r bobl ifanc eu bod nhw ddim yn cael mynd allan gyda'r hwyr oherwydd bod eu rhieni'n pryderu am fwlio. Roedd pedwar o'r grwpiau wedi cael cefnogaeth gan yr heddlu ynghylch seiberfwlio, ac roedd eraill wedi cael gwersi yn yr ysgol a'r coleg ynghylch bwlio. Roedd gan ddau awdurdod lleol air côd ar gyfer yr heddlu, fel bod yr heddlu'n gwybod y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt

## Effaith trafnidiaeth

Roedd trafnidiaeth yn rhwystr aruthrol i bobl ifanc ag anableddau dysgu weld ei gilydd. Roedden nhw'n wynebu'r un rhwystrau â phobl ifanc eraill o ran cost ac argaeledd, ond hefyd yn wynebu rhwystrau ychwanegol oedd yn cynnwys hygyrchedd, gwybodaeth ddealladwy ynghylch amserau a llwybrau, a chymorth i deithio.

Adeg pontio mae trafnidiaeth yn fater sy'n codi yng nghyswllt mwy na chymdeithasu. Gall trafnidiaeth i'r coleg a lleoliadau gwaith fod yn rhwystr.

Yn achos rhieni oedd heb gar at eu defnydd neu oedd yn gweithio, roedd teithio i'r ysgol ac yn ôl yn dod yn destun pryder gwirioneddol:

> 'Rydyn ni wedi cael dyfynbris o £20 y dydd ar gyfer tacsi i'r coleg, felly bydd 5 diwrnod yn £100. Mae hynny'n fwy na'r budd-dal, heb sôn am yr holl apwyntiadau eraill rydyn ni'n mynd iddyn nhw gyda nhw, clybiau ac ati, achos eu bod nhw'n methu mynd allan ar eu pen eu hunain.'

> 'Mae fy mab yn methu dal bws, ond mae'r gwasanaethau cymdeithasol wedi rhoi stop ar ei gludiant, mae'n methu ymdopi, mae'n mynd yn wallgo, ond fydd e ddim yn dal ati yn y coleg, byddai'r tacsis yn costio dros 160 yr wythnos i ni, fyddai'n mynd â'i holl arian PIP.'

Roedd prosiectau pontio a phrosiectau hunan-eiriolaeth yn cefnogi pobl ifanc gyda theithio; yn aml yn eu helpu i ddeall amserlenni a llwybrau, yn gweithio gyda chwmnïau bws lleol ar ymwybyddiaeth o anabledd a hygyrchedd, yn cefnogi pobl ifanc i wneud cais am docyn bws person anabl, a hefyd yn darparu cyfeillion teithio neu gyfleoedd i rannu lifft.

Roedd pobl ifanc mewn lleoliadau arbenigol yn dysgu sgiliau teithio yn ystod blynyddoedd 12-13, a hefyd yn y coleg os oeddent yn dysgu sgiliau byw'n annibynnol. Fodd bynnag, nid oedd y rhan fwyaf ohonynt wedi cael cefnogaeth i deithio cyn hyn, ac nid oeddent wedi bod allan ar eu pennau eu hunain, felly nid oedd llawer o amser ar gael iddyn nhw symud ymlaen.

# GOBEITHION AR GYFER Y DYFODOL

Mae'r adran olaf hon o ganfyddiadau yn edrych ar ddyheadau a gobeithion.

## Dyheadau a chefnogaeth ar gyfer gwaith

Gwaith oedd dyhead pwysicaf y bobl ifanc.

Cafwyd bod y llwybr at swyddi yn ddarniog. Ni soniodd neb (pobl ifanc, rhieni na gweithwyr proffesiynol) am gyflogaeth â chymorth fel posibilrwydd. Ni soniodd neb o'r bobl ifanc am brentisiaethau na dysgu yn y gwaith, ac yn anecdotaidd, dywedwyd wrth yr ymchwilwyr ar y safleoedd gwaith maes na allai'r rhan fwyaf o'r bobl ifanc gael prentisiaethau oherwydd nad oeddent yn bodloni'r gofynion mynediad, sef TGAU Mathemateg a Saesneg, ac oherwydd nad oedd colegau'n darparu prentisiaethau rhan amser. Ymddangosai fod dysgu yn y gwaith yn fwlch penodol oedd yn cyfrannu at y bylchau o ran opsiynau coleg ac opsiynau gwaith.

Roedd tua hanner yr ymatebwyr wedi cael profiad gwaith trwy'r ysgol ym mlynyddoedd  12 - 13 (dros 17 oed), ond roedd hynny fel arfer mewn lleoliadau gwirfoddol arbenigol neu mewn amgylcheddau ar wahân, yn hytrach nag yn y gymuned.

Mae tystiolaeth dda hefyd mai profiad gwaith sy'n cael ei ddarparu mewn amgylcheddau gwaith bywyd go iawn yw'r gefnogaeth fwyaf effeithiol ar gyfer pobl ifanc ag anableddau dysgu. Ar ben hynny, mae rhai arwyddion bod rhaglenni mentora yn helpu pobl ifanc i ymdopi â gofynion cyflogaeth yn y farchnad lafur agored. Yn arbennig, gall mentoriaid cyfoedion fod yn ddefnyddiol yn y cyd-destun hwn, gan eu bod yn dylanwadu ar ddisgwyliadau pobl ifanc a'u teuluoedd yng nghyswllt gwaith a chael swydd.

Rhannwyd hanesion gyda ni am bobl ifanc oedd heb gael eu talu am shifftiau, yn cael eu rhoi ar gyfnodau 'prawf' hir heb dâl, cyn darganfod nad oedd swydd ar gael yn y pen draw, neu gael oriau ychwanegol wedi'u dyrannu iddynt, ac yna'n colli eu swyddi pan fyddai'r pwysau'n mynd yn ormod:

> 'Mae cyflogwyr yn rhoi 'gobaith ffug', trwy wneud i bobl obeithio a disgwyl y bydd pethau'n arwain at swydd barhaol.'

Darganfu rhai pobl ifanc nad oedd rhai cyrsiau astudio a lleoliadau gwaith yn caniatáu iddynt gael profiad gwaith neu astudio llawn. Er enghraifft, cafodd un person ei atal rhag cwblhau elfen beiciau modur o gwrs cynnal a chadw cerbydau modur oherwydd cyrhaeddiad TGAU Saesneg (er ei fod yn medru cwblhau'r modiwlau cynnal a chadw ceir heb y cyrhaeddiad TGAU).

Soniodd rhieni hefyd am eu dyheadau y byddai eu pobl ifanc yn cael hyd i waith, ac roedden nhw'n canolbwyntio ar yr angen am 'cyfleoedd gwaith cynhwysiad cymdeithasol' teilwng. Roedd rhieni'n cydnabod gwerth cynhenid gwaith:

> 'Dyle fe gael swydd er mwyn bod â gwerth a rheswm i godi bob bore.'
>
> 'Swydd i roi trefn ddyddiol a diddordebau iddo fe.'
>
> 'Galwedigaeth ystyrlon a phwrpas i fywyd.'
>
> Fodd bynnag, roedd y rhieni'n pryderu ynghylch cyfleoedd a chamwahaniaethu:
>
> 'Rwy'n poeni y bydd e'n methu cadw swydd oherwydd bydd unrhyw rheolwr a chydweithwyr ddim yn deall ei gyflwr"



Mae'n eglur bod llawer o rieni'n dyheu am waith neu alwedigaeth ystyrlon i'w mab neu eu merch, ond eu bod yn methu gweld ffordd ymlaen. Ac eto, mae'r dystiolaeth o'r ymchwil yn dangos mai teuluoedd yw'r ffactor allweddol:

Y math cryfaf o gefnogaeth y gwelwyd ei bod yn hwyluso canlyniadau cyflogaeth da i bobl ifanc yw teuluoedd. Os bydd rhieni'n nodi'n gynnar bod cyflogaeth yn opsiwn ymarferol a dymunol wrth bontio wedi addysg, mae swydd neu leoliad gwaith â chymorth yn fwy tebygol o ddod i'r amlwg. Dengys hyn rôl hollbwysig teuluoedd wrth bennu canlyniad pontio a sut mae angen mynegi a datblygu opsiynau cyflogaeth yn ddigon cynnar wrth gynllunio pontio, er mwyn i'r rhieni a'r bobl ifanc weld hynny fel opsiwn ymarferol.

Roedd ambell enghraifft nodedig o bobl ifanc oedd wedi gallu dilyn eu diddordebau penodol iawn i wella ansawdd bywyd neu gyfleoedd gwaith:

- **person ifanc oedd** wedi bod yn mynd i Circus Eruption yn Abertawe ers 5 mlynedd ac a oedd yn berfformiwr medrus ar rai offer syrcas penodol;
- **person ifanc oedd** â diddordeb mawr yn sgiliau gof traddodiadol ac a oedd wedi gallu mynd ar ôl agweddau o hynny; a
- **benyw ifanc oedd** yn mwynhau gwnïo a gwaith nodwydd, ac a oedd am sefydlu siop ar Etsy[12] i werthu ei chynnyrch.

Mae'r llenyddiaeth yn cyfeirio'n benodol ar rôl hollbwysig gwasanaethau gyrfaoedd wrth gynllunio pontio, ac nid yw'r dystiolaeth yn glir o ran a yw gwasanaethau gyrfaoedd yn gyson yn cyflawni eu rhwymedigaethau i ddarparu cyngor gyrfaoedd ystyrlon i bobl ifanc ag anableddau dysgu. Pan fydd gwasanaethau gyrfaoedd yn rhan ragweithiol o gynllunio pontio ac yn datblygu opsiynau ystyrlon ar gyfer lleoliadau ôl-ysgol pobl ifanc, ymddengys bod y canlyniadau pontio'n gwella ac yn cael eu gweld fel rhai cadarnhaol gan y bobl ifanc a'u teuluoedd. Pan na fydd gwasanaethau gyrfaoedd yn rhan o broses gynllunio person-ganolog, y canfyddiad yw bod eu gwasanaeth yn ddiangen i raddau helaeth.

Teimlai 28 o'r 71 person ifanc eu bod wedi cael cyngor ynghylch beth i'w astudio yn y coleg. Ni ofynnwyd y cwestiwn hwn yn uniongyrchol i'r holl bobl ifanc oherwydd bod rhai cyfranogwyr yn rhy hen i fynd i'r coleg, ac wedi gadael rai blynyddoedd yn ôl, tra bod eraill ddim yn gwybod a fydden nhw'n mynd i'r coleg neu beidio.

Roedd tua 50 o'r holl bobl ifanc wedi cwrdd â Gyrfa Cymru a siarad am eu dyfodol. Cafwyd amrywiaeth o brofiadau o ran y cyngor ynghylch beth i'w astudio, gyda rhai'n sôn am brofiadau cadarnhaol iawn, ac eraill yn teimlo mai ychydig o gyngor neu gefnogaeth yr oedden nhw wedi'u cael.

At ei gilydd, ymddangosai fod llwybr disgwyliedig, sef ysgol, ac yna ymlaen i'r coleg, ond ychydig iawn o gyfleoedd ar gyfer gwaith neu alwedigaeth ystyrlon y tu hwnt i hynny. Mae'r dystiolaeth ymchwil yn awgrymu nad yw hynny'n ddigon uchelgeisiol i lawer o bobl ifanc ag anableddau dysgu, a'u bod yn gallu gweithio, yn enwedig mewn cyflogaeth â chymorth.

Mae consensws clir hefyd ymhlith ymchwilwyr ac arsylwyr mai'r hyn sy'n gweithio ym maes cyflogaeth i bobl ifanc ag anableddau dysgu yw cyflogaeth â chymorth a bod gwasanaethau cyflogaeth generig yn annigonol ar gyfer y boblogaeth hon. Mae'r diffyg cymorth arbenigol yn y maes hwn ar gyfer llawer o bobl ifanc ag anableddau dysgu yn debygol o fod yn cyfrannu at nifer uchel y bobl ifanc sydd ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yn y boblogaeth hon, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn syml yn aros yng nghartref y teulu hefyd ymwneud yn ystyrlon o gwbl â gweithgareddau cysylltiedig â gwaith.

Mae pontio i gyflogaeth, felly, wedi'i ddiffinio'n dda, wedi'i ymchwilio'n dda, ond hefyd yn dangos y canlyniadau lleiaf boddhaol. Mewn cyferbyniad â phob pontio arall, megis iechyd ac addysg ôl-ysgol, mae pontio i gyflogaeth yn ddewisol, sy'n golygu bod llai o bwysau ar wasanaethau i ddatblygu hynny fel opsiwn o ddifri ar gyfer gweithgaredd dydd ôl-addysg i bobl ifanc ag anableddau dysgu. Mae'r pontio i gyflogaeth hefyd yn aml yn digwydd ar ôl y broses cynllunio pontio statudol, ar adeg pan yw'r bobl ifanc wedi cyrraedd oed oedolion. Dylai ymdrechion i estyn y broses gynllunio at 25 oed (yng Nghymru) gael effaith ar hyn, ond hyd yma ni welwyd tystiolaeth yn cael ei chyhoeddi yn y parth cyhoeddus.

## Dyheadau o ran hobïau, diddordebau a bywyd actif

Y rhan hon o fywyd oedd yr ail ddyhead pwysicaf a fynegwyd gan bobl ifanc, ac roedden nhw'n sôn am hyn yn nhermau 'bod â phethau i'w gwneud' a 'byw bywyd llawn'. Er bod rhai ymarferwyr oedd â rolau cefnogi dysgu neu ofal uniongyrchol, ni soniodd gweithwyr proffesiynol eraill am bwysigrwydd pethau ystyrlon i'w gwneud, gan siarad yn lle am 'ddarpariaeth' a 'phecynnau'. Soniodd rhieni am yr agwedd hon ar fywyd cymdeithasol mewn modd eithriadol o uchelgeisiol, gan gyfleu awydd cryf yn syml i'w pobl ifanc gael 'bywyd hapus'.

Y prif bethau mae pobl ifanc eisiau eu gwneud yn y dyfodol yw:

- Teithio
- Gwneud ffrindiau newydd
- Cymryd rhan mewn cerddoriaeth a chwaraeon
- Cael anifeiliaid anwes
- Cymdeithasu a mynd ar deithiau diwrnod

'Mynd i weld y byd'

'Mynd ar daith gyda'm ffrindiau'

'Dysgu mynd allan ar fy mhen fy hun'

'Cwrdd â ffrindiau'n amlach'

## Diweddglo

Mae'r profiadau a rannwyd yn yr adroddiad hwn yn amlygu bod pobl ifanc ag anableddau dysgu yng Nghymru a'u teuluoedd yn dal i gael bod y cyfnod pontio i oedolaeth yn un llawn pryder ac yn anodd iawn cael hyd i ffordd drwyddo. Gallai llawer o hyn gael ei liniaru trwy sicrhau gweithrediad cywir y ddeddfwriaeth bresennol sy'n disgwyl i ddarparwyr sector cyhoeddus fod yn ddinesydd-ganolog. Gallai trefniadau pontio gael eu gwella'n fawr trwy gymryd camau uniongyrchol, hawdd eu cyflawni, i gynnwys pobl ifanc a'r rhai sy'n gofalu amdanynt yn well, darparu gwybodaeth glir, asiantaethau'n rhannu'r un agwedd at bontio, a gweithiwr allweddol i gefnogi pobl ifanc a'u teuluoedd ar hyd y broses.

Newidiadau mwy heriol sydd serch hynny'n hollol gyflawnadwy ac a fyddai'n trawsnewid profiadau fyddai gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol 'dan yr unto' sy'n cysylltu'n agos â darparwyr addysg. Nod y cyfnod pontio ddylai fod mwy o integreiddio cymdeithasol er mwyn mynd i'r afael ag ynysu, ac yn achos y rhan fwyaf o bobl ifanc ag anableddau dysgu, dylai hynny gynnwys rhagolygon go iawn ar gyfer cyflogaeth am dâl.

Mae'r argymhellion sy'n dilyn y casgliad hwn yn syrthio i'r meysydd canlynol:

## Cynnwys pobl ifanc wrth wneud cynlluniau ar gyfer eu dyfodol

Rwy'n arbennig o siomedig, er gwaetha'r ddeddfwriaeth, y rheoliadau a'r canllawiau statudol sy'n bodoli ar hyn o bryd ym maes gofal cymdeithasol, addysg a iechyd, sy'n datgan y dylai plant a phobl ifanc **ymwneud â chynllunio, gan sicrhau bod rhai'n gwrando ar eu barn,** nad oedd mwyafrif llethol y plant a'r bobl ifanc yn teimlo bod hynny'n wir. Dyna hefyd oedd barn y rhan fwyaf o'r rhieni a llawer o weithwyr proffesiynol.

Nid oedd y bobl ifanc a fu'n ymwneud â'r adroddiad hwn yn ymgysylltu â gwasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol ar hyn o bryd, ac roeddent fel petaent yn anymwybodol o'u hawliau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

## Cefnogaeth i rieni a gofalwyr

Mae rhieni a gofalwyr yn ganolog i gefnogaeth a gofal pobl ifanc ag anableddau dysgu, ac eto maent yn aml yn gorfod ymdrechu i gael yr wybodaeth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt. Rwy'n teimlo bod angen mwy o gefnogaeth a chydnabyddiaeth arnynt yn eu rôl, a mynediad cliriach, fan leiaf, i wybodaeth ynghylch pa gefnogaeth sydd ar gael iddynt eu hunain a'u plant, a mynediad mwy hwylus i'r gwasanaethau y gallant eu hawlio.

## Profiad mwy cydlynus ac ystyrlon i bobl ifanc a'u teuluoedd

Ar hyn o bryd mae trefniadau pontio yn ddarniog ac yn eithriadol o anodd cael hyd i ffordd drwyddynt ar draws gwahanol wasanaethau cyhoeddus. Mae canllawiau'r Llywodraeth ynghylch hyn wedi dyddio, ac yn mynd yn ôl i'r cyfnod cyn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r ddwy Ddeddf honno'n cynnwys yr egwyddorion a'r nodau a ddylai arwain at brofiad llawer gwell i bobl ifanc ar yr adeg hon yn eu bywydau, ac mae angen cymryd camau ar frys i wireddu hynny. Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod Byrddau Partneriaeth Lleol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn rhoi sylw manwl i wella profiadau pobl ifanc ag anableddau dysgu wrth bontio i oedolaeth.

## Gwell cyfleoedd i fod yn ddinasyddion cyfartal a gweithredol

Mae gan blant a phobl ifanc sydd ag anableddau dysgu yr un hawliau â phob plentyn arall i derbyn yr addysg, y gofal a'r gefnogaeth ychwanegol y mae arnynt eu hangen er mwyn cyflawni eu potensial a byw bywydau mor llawn a gweithredol â phosib.

Roedd yn drawiadol clywed gan bobl ifanc a rhieni pa mor anodd y gall fod i ddatblygu a chynnal cyfeillgarwch a chyfleoedd cymdeithasol y tu allan i'r teulu, a sut y gall cyfleoedd fod yn fwy cyfyngus ar ôl i addysg amser llawn gael ei chwblhau.

Bydd cyfleoedd cymdeithasol yn cynyddu gyda chyflogaeth, trafnidiaeth hygyrch a'r gwaith paratoi fel rhan o fyd addysg i baratoi ar gyfer hyn.

Mae angen i bobl ifanc ddatblygu sgiliau bywyd yn ystod eu cyfnod ym myd addysg a fydd yn eu galluogi i fyw bywydau mor llawn â phosibl. Mae cyfleoedd i ddatblygu hyn ymhellach yn y cwricwlwm newydd.

Roedd yn siom fawr clywed bod pobl ifanc a'u rhieni ddim yn optimistaidd, ac fel petaen nhw'n anymwybodol o'r rhagolygon ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth â chymorth. Ar hyn o bryd mae'r Loteri Fawr yn cyllido rhaglen 'Ymgysylltu i Newid' ar y cyd ag Anabledd Dysgu Cymru a ddylai ddarparu hyfforddiant a chyfleoedd ar gyfer gweithio am dâl i 1000 o bobl ifanc ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth rhwng 2016 a 2021. Mae'r Llywodraeth wedi mynegi ymrwymiad clir o dan y rhaglen 'Ffyniant i Bawb' i gynyddu cyfranogiad pobl ag anableddau yng Nghymru. Bydd yn hanfodol bod yr hyn a ddysgwyd o'r rhaglen 'Ymgysylltu i Newid' yn cael ei drosi'n newid parhaol.

## Beth fydda i'n ei wneud fel Comisiynydd:

- **Bydd fy nhîm a minnau'n ymgysylltu** â'r rhaglen 'Gwella Bywydau' ac yn ei monitro er mwyn cefnogi'r newid sy'n angenrheidiol ar gyfer pobl ifanc wrth iddyn nhw bontio i oedolaeth.
- **Byddwn ni'n adolygu adroddiadau blynyddol 2018-19 y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol** er mwyn mesur cynnydd, nodi ymarfer cadarnhaol wrth symud tuag at brofiad gwasanaeth integredig ar gyfer pobl ifanc a'u teuluoedd, gan amlygu unrhyw fylchau a gwendidau sy'n parhau.
- **Byddwn ni'n parhau i wrando ar bobl ifanc a'u teuluoedd** ynghylch a yw'r rhaglen 'Gwella Bywydau' mewn gwirionedd yn gwella'u profiadau a'u rhagolygon o safbwynt byw bywydau llawn fel dinasyddion o Gymru.



# ARGYMHELLION

Cwblhaodd Llywodraeth Cymru eu hadolygiad 'Gwella Bywydau' ym mis Mawrth 2018, gyda phapur a gyflwynwyd i'r Cabinet.[13] Roedd yr adolygiad hwnnw'n rhoi pwyslais haeddiannol iawn ar yr angen am weithredu brys, ar draws y Llywodraeth, i wella bywydau pobl ag anableddau dysgu.

Mae'r Llywodraeth wedi nodi y bydd rhaglen **'Gwella Bywydau'** o ganlyniad i hyn, a fydd yn cysylltu â rhaglen ehangach 'Ffyniant i Bawb' y Llywodraeth, gweithrediad y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol ac argymhellion yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

**Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno tystiolaeth fanwl i'w bwydo i'r rhaglen 'Gwella Bywydau'. Fy argymhelliad i yw bod y rhaglen hon yn sefydlu rhaglen gwaith pontio unigryw sy'n ceisio gwneud gwelliannau sylweddol i brofiadau pobl ifanc wrth iddyn nhw bontio i oedolaeth.**

**Dylai'r llif gwaith hwn sicrhau bod Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus perthnasol yn gwneud cynnydd cyflym wrth ddarparu newidiadau sy'n effeithio ar y meysydd canlynol yn ystod y tymor Cynulliad hwn:**

| Cynnwys pobl ifanc wrth greu cynlluniau ar gyfer eu dyfodol | Cefnogaeth i rieni a gofalwyr |
|---|---|
| 1. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno canllawiau wedi'u diweddaru ar gynllunio pontio amlasiantaeth i bobl ifanc ag anableddau dysgu, gan gynnwys gofyniad i sicrhau bod **pobl ifanc yn chwarae rhan weithredol a chanolog** yn y gwaith o gynllunio ar gyfer pontio i oedolaeth.<br><br>2. Dylai Llywodraeth Cymru gyfeirio'n benodol at y pethau y gall pobl ifanc ag anableddau dysgu eu hawlio yn fersiwn ddiwygiedig Côd Ymarfer Rhan 10 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), **er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn derbyn gwybodaeth glir am eiriolaeth a mynediad iddo.** | 3. Dylai pob awdurdod lleol sicrhau bod **gwybodaeth glir am y pethau y gellir eu hawlio ac argaeledd** egwyliau byr, asesiadau a chymorth i ofalwyr, a threfniadau pontio yn cael ei darparu'n awtomatig ac yn uniongyrchol i deuluoedd, yn ogystal â bod wedi'i lleoli'n glir mewn un man ar eu gwefannau eu hunain. |
| **Profiad mwy cydlynus ac ystyrlon ar gyfer pobl ifanc a'u teuluoedd** | **Gwell cyfleoedd i fod yn ddinasyddion cyfartal a gweithredol** |
| 4. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno **canllawiau wedi'u diweddaru ar gynllunio pontio amlasiantaeth** ar gyfer pobl ifanc ag anableddau dysgu, sy'n cynnwys gofyniad i bennu gweithiwr allweddol arweiniol ar gyfer pob person ifanc a'u teulu, un cynllun pontio traws-sefydliadol, a bod prosesau pontio lleol yn cael eu hintegreiddio ar draws iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol.<br><br>5. Bydd gwerthusiad ffurfiol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn ystyried, ymhlith pethau eraill, 'pa effaith mae'r ddeddfwriaeth wedi'i chael ar unigolion sy'n derbyn gofal a chefnogaeth a gofalwyr sy'n derbyn cefnogaeth'. Oddi mewn i hyn dylai Llywodraeth Cymru sicrhau eu bod yn gwerthuso a yw pobl sy'n derbyn gofal a chefnogaeth fel plentyn ac fel oedolyn yn dal i deimlo eu bod 'ar ymyl y clogwyn' rhwng gwasanaethau o gwmpas 18 oed. Os yw hynny'n wir, bydd angen rhoi sylw iddo, er mwyn gwireddu egwyddorion y Ddeddf o ran gofal a chefnogaeth person-ganolog<br><br>6. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gwneud cynnydd sylweddol, effeithiol i **integreiddio gwasanaethau** ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, plant ag anghenion cymhleth a gwasanaethau pontio fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Rhan 9 Canllawiau Statudol (Trefniadau Partneriaeth). | 7. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod plant a phobl ifanc ag anableddau dysgu yn cael eu cynnwys wrth lunio'r **Cwricwlwm** newydd fel ei fod yn diwallu eu hanghenion o ran byw bywydau mor llawn ac mor annibynnol â phosibl. Dylai fod disgwyl i ysgolion ddarparu cyfleoedd i fyfyrwyr ag anableddau dysgu ffurfio perthnasoedd cymdeithasol gyda'u cyfoedion sydd heb anabledd.<br><br>8. Dylai adolygiad Llywodraeth Cymru o gynlluniau **trafnidiaeth** consesiynol yn 2018 ymgynghori'n uniongyrchol â phobl ifanc ag anableddau dysgu, er mwyn darparu gwasanaethau a chynlluniau sy'n diwallu eu hanghenion.<br><br>9. Dylai Rhaglen Gyflogadwyedd 'Ffyniant i Bawb' Llywodraeth Cymru ymgysylltu â'r dysgu o raglen gyfredol 5-mlynedd y Loteri Fawr, 'Ymgysylltu i Newid', ac adeiladu arno er mwyn datblygu **cyfleoedd cyflogaeth parhaol, eang â chymorth** ar gyfer pobl ifanc ag anableddau dysgu sy'n gallu manteisio ar hynny. |

**Comisiynydd Plant Cymru**
**Tŷ Ystumllwynarth,**
**Ffordd Phoenix,**
**Llansamlet,**
**Abertawe**
**SA7 9FS**
**01792 765600**

**post@complantcymru.org.uk**
**facebook.com/childcomwales**
**@complantcymru (witter)**

Gorffennaf 2018

Mae'r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill ar ein gwefan
www.complantcymru.org.uk
neu drwy gysylltu ar y manylion uchod.

TROEDNODIADAU

1 Cyngor gan berson ifanc ag anableddau dysgu i bobl ifanc eraill.

2 https://downloads.unicef.org.uk/wp-content/uploads/2010/05/UNCRC_summar1.pdf?_ga=2.124139593.2114276748.1527868820-1700713826.1504862745

3 https://www.mencap.org.uk/learning-disability-explained/what-learning-disability

4 https://gov.wales/docs/dfm/minutes/cabinet/180306learningdisabilityimprovinglivesprogrammeen.pdf

5 http://www.assembly.wales/Laid%20Documents/PRI-LD9181-EM%20-%20Social%20Services%20and%20Well-being%20(Wales)%20Bill%20-%20Explanatory%20Memorandum-28012013-242600/pri-ld9181-em-e-English.pdf

6 https://www.gov.uk/guidance/equality-act-2010-guidance

7 https://www.equalityhumanrights.com/en/advice-and-guidance/public-sector-equality-duty

8 Anableddau Dysgu – y Rhaglen Gwella Bywydau, CAB (17-18) 37, Mawrth 2018, tudalen 1

9 https://gov.wales/docs/dhss/publications/180116reviewen.pdf

10 https://gov.wales/docs/strategies/170919-prosperity-for-all-en.pdf

11 https://gov.wales/docs/dfm/minutes/cabinet/180306learningdisabilityimprovinglivesprogrammeen.pdf

12 http://www.carpcollaborations.org/images/DRILL-report-young-people-and-friendships-what-matters-to-us-1-1.pdf

13 Siop arlein sy'n galluogi aelodau'r cyhoedd a busnesau bach i werthu eu nwyddau creadigol

14 https://gov.wales/docs/dfm/minutes/cabinet/180306learningdisabilityimprovinglivesprogrammeen.pdf

Dylunio: Yogi Communications